# Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal 2026-27

## Cefndir

Mae'r Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal yn casglu gwybodaeth am y plant hynny sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Ers 6 Ebrill 2016, nid yw Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989") nac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru mwyach. Mae'r hawliau a'r dyletswyddau o dan y darpariaethau hynny wedi'u hymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), yn Rhan 6 o Ddeddf 2014 ac Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn bennaf. Gweler y Cod Ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 am ragor o fanylion.

Dylai data gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru'n flynyddol a dylai adlewyrchu gwerth blwyddyn ariannol o ddata. Bydd y flwyddyn yn rhoi manylion y flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027.

### Canllawiau ar gyfer cwblhau a chyflwyno

Mae pedair ffurflen Excel sy'n rhan o'r Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal. Rhaid defnyddio'r ffurflenni hyn i gofnodi data unigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod **2026-27**.

Dylid uwchlwytho / dilysu / cyflwyno'r ffurflen hon ar Objective Connect erbyn 28 Mai 2027. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y ffurflen, cysylltwch â'r tîm casglu data.

### Trosolwg o'r casgliad

Ar gyfer plant a dderbyniodd ofal yn ystod y flwyddyn, mae'r wybodaeth yn ymwneud â'u lleoliad a'u statws cyfreithiol.

### Diffinio plant 'sy'n derbyn gofal' at ddibenion yr ystadegau hyn

Mae'r casgliad yn cydymffurfio'n agos â'r diffiniad o blant sy'n derbyn gofal a ddarperir yn y gyfraith. Mewn nifer bach o achosion pan fo posibilrwydd o ddryswch, rhoddir canllawiau ar sut i ddehongli'r term 'derbyn gofal' at ddibenion ystadegol. Y nod yw sicrhau cysondeb yn y data fel bod modd cymharu ffigurau awdurdodau lleol.

Ystyr 'plentyn' yw unrhyw un o dan 18 oed neu unrhyw un y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn asesu ei fod o dan 18 oed ar ddechrau'r cyfnod o ofal. Ni fydd plant yn derbyn gofal ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Defnyddir y geiriau 'plentyn' a 'plant' yn yr ystyr hwn drwy'r canllawiau hyn. Pe bai gwasanaethau cymdeithasol yn canfod yn ddiweddarach bod unigolyn dros 18 oed, rhaid iddynt gadw'r cofnod o ofal a nodi'r unigolyn yn un sy'n gadael gofal gan gofnodi canlyniadau ar gyfer unigolyn sy'n gadael gofal yn unol â'r adrannau perthnasol.

Mae'r term 'derbyn gofal' wedi'i ddiffinio yn Rhan 6, adran 74 o Ddeddf 2014, a dylid deall y term yn yr ystyr hwn drwy'r nodiadau hyn.

Mae adran 74 o Ddeddf 2014 yn nodi bod cyfeiriad at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn gyfeiriad at blentyn sydd yn ei ofal, neu sy'n cael ei letya, am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr, gan yr awdurdod wrth arfer swyddogaethau sy'n swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ac eithrio swyddogaethau o dan adran 15, Rhan 4, neu adran 109, 114 neu 115.

Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw wedi cael ei letya, am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr, o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn adrannau 76 a 77 o Ddeddf 2014, neu os yw'n cael ei roi yng ngofal awdurdod lleol drwy orchymyn a wneir o dan Ran IV o Ddeddf 1989. (Mae Rhan IV yn cyfeirio at orchmynion gofal a gorchmynion gofal interim).

Mae plant sy'n cael seibiannau tymor byr yn rhan o grŵp arbennig. Caiff seibiannau tymor byr eu trefnu o dan Ran 4, adrannau 37 neu 38, neu Ran 6, adran 76 o Ddeddf 2014. **Rhaid** i awdurdodau lleol nodi'n glir o dan ba adran y maent yn trefnu seibiant byr. Fel arfer, bydd seibiannau byr o lai na 24 awr yn cael eu trefnu o dan Ran 4. Ni fydd plant sy'n cael seibiant tymor byr yn rhan o becyn gofal a chymorth a drefnir o dan Ran 4 o Ddeddf 2014 yn dod yn blant sy'n derbyn gofal. Dim ond plant y mae eu seibiannau byr yn cael eu trefnu o dan Ran 6 fydd yn dod yn blant "sy'n derbyn gofal". Er mwyn eu hystyried yn blant sy'n derbyn gofal, rhaid i'r llety gael ei ddarparu am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr.

Dylid sicrhau bod y canlynol yn cael ei gynnwys yn y casgliad:

Yn unol â'r diffiniad o blentyn sy'n derbyn gofal, bydd y grwpiau canlynol o blant yn cael eu cynnwys yn y ffurflen:

- Plant sy'n cael cyfres o seibiannau byr am gyfnod parhaus o dros 24 awr yn rhan o gynllun gofal a chymorth Rhan 6, ac sydd, fel arall, yn byw gartref.
- Plant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu. Mae hwn yn statws ar wahân, a rhaid iddo gael ei gofnodi felly. Os bydd plentyn yn cael ei leoli gyda'i ofalwr maeth presennol, rhaid i hyn gael ei gofnodi fel lleoliad newydd.
- Plant sy'n cael eu lleoli gyda darpar rieni sy'n mabwysiadu o dan adran 81(11) o Ddeddf 2014 a rheoliad 25 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").
- Plant 16 neu 17 oed sydd mewn llety lled-annibynnol neu leoliadau pontio eraill wrth baratoi i adael gofal. Dylai eu statws derbyn gofal a'r dyddiad y bydd eu gofal yn dod i ben fod wedi'i gofnodi yn y cynllun gofal, a dylai'r dyddiad y bydd y gofal yn dod i ben, a gofnodir ar y ffurflen, adlewyrchu hyn.
- Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches (UASC) o dan 18 oed y mae'r awdurdod lleol o'r farn, yn dilyn cwblhau proses benderfynu ffurfiol, y dylent dderbyn gofal er mwyn diogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Ystyrir bod y plant hyn "yn cael eu lletya" drwy gytundeb gwirfoddol o dan adran 76 o Ddeddf 2014 ac fel arfer, cânt eu lleoli mewn lleoliad gofal maeth neu breswyl.

- Plant mewn lleoliad maeth brys gyda pherthynas neu ffrind o dan reoliad 26 o Reoliadau 2015. Gall y math hwn o leoliad bara hyd at 16 o wythnosau.
- Plant o dan orchymyn goruchwylio (cyfraith trosedd) gyda gofyniad preswylio i fyw mewn llety awdurdod lleol. Nid yw hyn yr un fath â gorchymyn goruchwylio o dan Ddeddf 1989, nad yw'n statws derbyn gofal.
- Ers 3 Rhagfyr 2012, pan ddaeth Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPOA) i rym, plant sydd mewn llety cadw ieuenctid (mae plant o'r fath yn cael eu trin fel pe baent yn "derbyn gofal" yn unol ag adran 104 o LASPOA).

## Nid yw'r canlynol yn 'derbyn gofal'

Ni fydd y grwpiau canlynol o blant yn cael eu cynnwys yn y ffurflen. Ar gyfer rhai o'r plant hyn, efallai mai dim ond yn achos plant cyn 3 Rhagfyr 2012, pan ddaeth LASPOA i rym, y bydd y statws cyfreithiol yn gymwys.

- Plant sy'n cael gwasanaeth, neu gymorth, gan wasanaethau cymdeithasol o dan ddarpariaethau cyfreithiol eraill (megis Rhan 4 o Ddeddf 2014). Mae hyn yn cynnwys seibiannau byr am gyfnodau llai na 24 awr a ddarperir yn rhan o gynllun gofal a chymorth Rhan 4.
- Ni ddylai cyfnodau o dderbyn gofal am lai na 24 awr gael eu cofnodi yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, hyd yn oed os yw'r plentyn eisoes yn derbyn gofal.
- Pobl ifanc sydd wedi gadael gofal ac sy'n derbyn cymorth o dan adrannau 105 i 115 o Ddeddf 2014.
- Plant sy'n ddarostyngedig i orchmynion goruchwylio o dan Ddeddf 1989.
- Plant sy'n ddarostyngedig i orchmynion preswylio o dan Ddeddf 1989.
- Plant sydd wedi gadael gofal oherwydd gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.
- Plant sydd wedi ymddangos yn y llys ac sydd wedi'u 'mechnïo i breswylio lle mae'r awdurdod lleol yn cyfarwyddo', ond nad ydynt yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol ei hun.
- Plant sy'n cael eu maethu'n breifat.
- Plant nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ond a fydd yn cael eu mabwysiadu. Mae'r ceisiadau hyn fel arfer yn cael eu gwneud gan lys-rieni neu berthnasau.
- Plant mewn ysbyty arhosiad hir os nad yw'r awdurdod lleol yn eu lletya, hyd yn oed os oeddent yn derbyn gofal yn flaenorol. Os byddant yn dychwelyd i ofal maeth neu gartref plant ar ôl cael eu rhyddhau, byddant yn ailddechrau derbyn gofal.
- Unrhyw berson sy'n 18 oed neu'n hŷn, gan gynnwys y bobl ifanc hynny sy'n parhau i fyw gyda chyn-ofalwyr o dan leoliad 'Pan fydda i'n Barod'.

Nid yw'r canlynol yn derbyn gofal ac nid ydynt yn ymddangos yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, ac eithrio o dan orchymyn gofal cydredol:

- Plant sy'n cael eu cadw o dan adrannau 90 i 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, hyd yn oed os ydynt wedi'u lleoli mewn llety awdurdod lleol.

## Gwybodaeth i'w chofnodi

Mae'r eitemau data a gesglir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn perthyn i un o dri chategori y gellir eu nodi yn ddidrafferth, sef:

1. Manylion personol y plentyn, megis dyddiad geni, rhywedd, tarddiad ethnig.
2. Eitemau data sy'n ymwneud â chyfnodau gofal unigol, sydd naill ai'n dechrau neu'n dod i ben yn ystod 2026-27. Nid yw'n anghyffredin i blentyn gael mwy nag un cyfnod yn ystod y flwyddyn. Ni ddylai cyfnodau a ddaeth i ben cyn dechrau 2026-27 gael eu cofnodi.
3. Eitemau data "untro" penodol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu "gerrig milltir" penodol yn hanes gofal y plentyn, megis cael ei fabwysiadu. Dim ond os neu pan fydd plentyn yn cyrraedd y cerrig milltir y bydd y meysydd hyn yn cael eu llenwi.

'Cyfnod' ar y ffurflen:

At ddibenion rhoi data ar y ffurflen, mae'r cyfnodau mae plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn cael eu rhannu'n "gyfnodau" gofal. Mae pob cyfnod yn cynrychioli cyfnod o dderbyn gofal o dan yr un statws cyfreithiol ac yn yr un lleoliad. Bydd cyfnod newydd yn dechrau pan fydd statws cyfreithiol neu leoliad y plentyn yn newid. Rhaid i gyfnodau gael eu cofnodi yn nhrefn dyddiad.

Pryd y dylid cofnodi cyfnod newydd:

Dylai cyfnod newydd ddechrau:

- Bob tro y mae plentyn yn dechrau derbyn gofal.
- Pan fo'r cod statws cyfreithiol yn newid. Nid oes rhaid cofnodi cyfnod newydd pan fo statws cyfreithiol parhaus yn cael ei adnewyddu.
- Pan fo lleoliad yn newid. O dan rai amgylchiadau, pan fo'r lleoliad newydd yn lleoliad dros dro, ni ddylid cofnodi newid lleoliad yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal. Gweler y nodiadau ar 'leoliadau dros dro' yn yr adran Codau Lleoliad.

Os bydd un cyfnod agored yn parhau heb newid o flwyddyn i flwyddyn, rhaid cyflwyno cofnod ar gyfer y plentyn hwnnw bob blwyddyn. Dylid cofnodi'r dyddiad y dechreuodd y cyfnod, ond dylai'r dyddiad y daeth y cyfnod i ben a'r rheswm dros hynny gael eu gadael yn wag os yw'r cyfnod hwnnw'n dal i fod ar agor ar 31 Mawrth. Rhaid i gofnod y flwyddyn ganlynol ddechrau gyda'r un manylion. Nodwch y dyddiad y dechreuodd y cyfnod. Os bydd y cyfnod hwn yn cau yn ddiweddarach, dylid cofnodi'r dyddiad y daeth i ben a'r rheswm dros hynny.

## Lleoliadau Pan Fydda i'n Barod

Mae lleoliadau "Pan Fydda i'n Barod" yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i barhau i fyw gyda gofalwyr maeth pan fyddant yn 18 oed. Mae'n eu galluogi i aros mewn amgylchedd teulu sefydlog

hyd eu pen-blwydd yn 21 oed, neu 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen o addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arno.

Dylid cyfrif pob lleoliad Pan Fydda i'n Barod, ni waeth beth yw'r llwybr i'r lleoliad.

### Tarfu ar leoliad mabwysiadu

**Methiant yn y cam cyflwyno** – yn digwydd cyn dechrau'r lleoliad. Gan nad yw'r plentyn sy'n derbyn gofal wedi'i leoli eto, ni chaiff hwn ei ystyried yn ffurfiol fel tarfu ar leoliad. Mae methiant yn y cam cyflwyno pan fo plentyn wedi cael y cod 'Cael eu lleoli i'w mabwysiadu' (h.y. unrhyw un o'r codau A) ond na chafodd ei leoli wedi hynny.

**Tarfu ar ôl lleoli** – y lleoliad wedi methu cyn gwneud Gorchymyn Mabwysiadu. Gall hyn fod ***gyda chydsyniad***, neu heb gydsyniad, yn amodol ar gael Gorchymyn Adfer. Mae'r broses yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad y llys pan fo cais wedi'i gyflwyno gan y darpar fabwysiadwyr. O dan y diffiniad hwn, mae'r plentyn wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu, ond mae gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu yn cadarnhau'r lleoliad yn gyfreithiol.

**Methiant teuluol** – tarfu ar ôl i'r lleoliad gael ei gadarnhau'n gyfreithiol h.y. ar ôl gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu. Gellir ei amcangyfrif o'r eitem 'Rheswm y dechreuodd y plentyn dderbyn gofal'.

### Seibiannau byr

Caiff seibiannau byr eu darparu i blant a phobl ifanc ag anghenion gofal a chymorth, i roi cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r cartref neu i roi "seibiant" i'w rhieni (neu eu gwarcheidwaid) o ddyletswyddau arferol gofalu am y plentyn, neu'r ddau. Gallant fod yn ddigwyddiadau untro ond, yn fwy aml, maent yn gyfres o seibiannau wedi'u cynllunio, yn aml yn yr un lleoliad neu gyda'r un darparwr. Un enghraifft fyddai plentyn ag anabledd corfforol sydd fel arfer yn byw gartref gyda'i rieni ond sy'n cael ei letya gan gyngor lleol bob penwythnos.

Gall seibiannau byr i blant gael eu trefnu o dan Ran 4 (adrannau 37 neu 38) neu Ran 6 (adran 76) o Ddeddf 2014.

Nid yw plant anabl y mae eu seibiannau byr yn cael eu darparu yn rhan o gynllun gofal a chymorth Rhan 4 yn dod yn blant sy'n derbyn gofal, hyd yn oed os bydd y seibiant hwnnw'n golygu bod oddi cartref am fwy na 24 awr. **Rhaid** i awdurdodau lleol fod yn glir ynghylch a ddarperir seibiant byr o dan Ran 4 neu Ran 6 o Ddeddf 2014. Ceir canllawiau pellach ar sut y caiff seibiannau byr eu dosbarthu yng Nghod Ymarfer Rhan 6 (paragraffau 290 i 294).

Ystyrir bod plant y mae eu seibiannau byr yn cael eu darparu o dan Ran 6 o Ddeddf 2014 yn cael eu lletya'n wirfoddol o dan adran 76, ac yn dod yn blant sy'n derbyn gofal. Bydd angen i'r awdurdod lleol baratoi cynllun gofal a chymorth Rhan 6 ar gyfer y plant hyn, ond mae rheoliad 62 o Reoliadau 2015 yn caniatáu iddo gynllunio gofal a lleoliad mewn ffordd fwy hyblyg os bydd y seibiannau hyn yn rhan o gyfres o seibiannau byr a gynlluniwyd yn yr un lleoliad ac os na fydd y plant oddi cartref am fwy na 120 o ddiwrnodau mewn cyfnod o ddeuddeg mis.

Mae plant y darperir seibiannau byr ar eu cyfer o dan Ran 6 yn rhan o grŵp arbennig ac, er mwyn iddynt gael eu hadnabod yn ddidrafferth, defnyddir cod statws cyfreithiol arbennig (V1). A bod yn fanwl gywir, mae'r plant hyn yn symud i mewn ac allan o ofal. Yn unol â thelerau Deddf 2014 a Rheoliadau 2015, maent ond yn derbyn gofal ar y diwrnodau (a'r nosweithiau) hynny pan fônt yn cael eu lletya, ac nid ydynt yn derbyn gofal pan fônt gartref gyda'u rhieni (neu eu gwarcheidwaid).

Ni ddylid drysu rhwng plant sy'n cael seibiannau byr o dan Ran 6 a phlant eraill sy'n dechrau derbyn gofal a'r gofal hwnnw'n dod i ben sawl gwaith yn ystod y flwyddyn am wahanol resymau. Mae plant sy'n cael seibiannau byr yn arddangos nifer o nodweddion cyffredin:

- Maent yn byw gartref fel arfer, ac yn y tymor canolig i'r tymor hir, maent yn treulio mwy o amser yn byw gyda'u rhieni (neu eu gwarcheidwaid) nag yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol.
- Mae ganddynt gynllun gofal a chymorth Rhan 6 sy'n nodi'n glir yr adegau (neu'r amgylchiadau) pan fyddant yn cael eu lletya a'r lleoliad (naill ai gofalwr maeth penodol neu sefydliad preswyl penodol). Rhaid trefnu cyfres o seibiannau h.y. o leiaf dau. Nid yw cyfnod "untro" o seibiant i rieni neu warcheidwaid plentyn yn ddigon i blentyn gael ei gynnwys yn y grŵp hwn.
- Mae statws cyfreithiol y plant hyn wedi'i nodi o dan Ran 6, adran 76 o Ddeddf 2014. (Ni ddylai plentyn o dan unrhyw statws neu orchymyn arall gael ei gynnwys ar y ffurflen hon).
- Mae terfynau amser caeth ar hyd pob seibiant a chyfanswm nifer y diwrnodau o ofal a ganiateir o dan y trefniadau hyn mewn blwyddyn, fel yr amlinellir uchod.

Os bydd amgylchiadau plentyn yn golygu na allant fodloni pob un o'r amodau hyn, ni ddylent gael eu trin fel ffurflen V1; yn hytrach, dylent gael eu trin fel cyfnodau ar wahân o ofal o dan statws cyfreithiol V2.

Dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal o dan gyfres o seibiannau byr gael ei gofnodi yn yr un modd. Cofnodwch fodolaeth cyfres o seibiannau byr wedi'u cynllunio a wneir o dan Ran 6 gan ddefnyddio cod statws cyfreithiol V1. Dim ond pan fo'r seibiannau byr gyda'r un darparwr y dylid gwneud hyn. Dylai awdurdodau lleol gofnodi nifer y seibiannau byr a gafodd y plentyn.

Mae hyn yn golygu y bydd plentyn sy'n derbyn gofal bob penwythnos o dan gynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn cael ei gofnodi unwaith gan ddefnyddio'r cod statws cyfreithiol V1, gan nodi ei fod wedi derbyn 52 o seibiannau byr.

## Llenwi ffurflenni

Mae pedair ffurflen yn rhan o'r set ddata hon, sef:

- Manylion personol y plentyn: rhaid casglu un cofnod ar gyfer pob plentyn.
- Cyfnodau gofal: rhaid casglu un cofnod ar gyfer pob cyfnod o dderbyn gofal o dan yr un statws cyfreithiol ac yn yr un lleoliad ar gyfer pob plentyn.

- Mabwysiadu plant sy’n derbyn gofal: rhaid casglu cofnod ar gyfer pob plentyn y daeth ei gyfnod o dderbyn gofal i ben yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i wneud gorchymyn mabwysiadu.
- Y rhai sy’n gadael gofal: rhaid casglu cofnod ar gyfer pob plentyn y daeth ei gyfnod o dderbyn gofal i ben yn ystod y flwyddyn a oedd yn 16 oed neu’n hŷn pan ddaeth y gofal i ben.

Cyflwyniad ar gyfer blwyddyn flaenorol:

Os na chafodd cofnod ar gyfer blwyddyn flaenorol ei gyflwyno, drwy gamgymeriad, rhaid cyflwyno ffurflenni ar wahân ar gyfer pob blwyddyn goll pan oedd y plentyn yn derbyn gofal.

Gwiriadau dilysu a chofnodion a wrthodwyd:

Mae’r data plant sy’n derbyn gofal yn adnodd gwybodaeth pwysig, ac mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth uchel i wella a chynnal cywirdeb y data hwn. Mae’r gwiriadau dilysu wedi’u cynllunio i nodi camgymeriadau posibl drwy wirio cofnodion am gysondeb mewnol, ynghyd â sicrhau cywirdeb hanes pob plentyn dros amser drwy gymharu cyflwyniad bob blwyddyn â’r hyn a gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae’r nodiadau hyn yn adlewyrchu rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”). Mae’r rhain yn cynnwys Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae’r rheoliadau hyn yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig mewn gwasanaethau cartref gofal rheoleiddiedig (yn cynnwys cartrefi gofal i blant), gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau llety diogel, a gwasanaethau cymorth cartref. Maent yn gymwys i ddarparwyr awdurdodau lleol, darparwyr preifat a darparwyr yn y trydydd sector sy’n darparu gwasanaethau o’r fath.

# Gofynion data

## Plant sy’n derbyn gofal – Manylion personol y plentyn

Pan fo plentyn yn derbyn gofal am flwyddyn neu ragor, ni ddylai’r manylion hyn newid rhyw lawer o flwyddyn i flwyddyn. Dylai unrhyw newid i god awdurdod lleol, rhif adnabod plentyn yr awdurdod lleol, dyddiad geni neu rywedd plentyn (e.e. gan fod camgymeriad a wnaed yn flaenorol bellach wedi’i gywiro) gael ei esbonio ar wahân mewn e-bost ar ôl cyflwyno’r ffurflen ddiweddaraf.

### Cod awdurdod lleol

512 Ynys Môn
514 Gwynedd
516 Conwy
518 Sir Ddinbych
520 Sir y Fflint
522 Wrecsam
524 Powys
526 Ceredigion
528 Sir Benfro
530 Sir Gâr
532 Abertawe
534 Castell-nedd Port Talbot
536 Pen-y-bont ar Ogwr
538 Bro Morgannwg
540 Rhondda Cynon Taf
542 Merthyr Tudful
544 Caerffili
545 Blaenau Gwent
546 Torfaen
548 Sir Fynwy
550 Casnewydd
552 Caerdydd

### Rhif adnabod plentyn yr awdurdod lleol

Nodwch rif adnabod unigryw plentyn (heb fod yn fwy na 10 llythyren o hyd). Rhaid cadw’r rhif hwn o flwyddyn i flwyddyn. Gall gynnwys llythrennau a rhifau. Peidiwch â defnyddio nodau nad ydynt yn llythrennau neu’n rhifau. Yr eitem hon yw’r unig ffordd y mae system gyfrifiadurol Llywodraeth Cymru yn gallu adnabod cofnod pob plentyn. Os ydych chi’n bwriadu newid rhifau adnabod plant ee yn sgil cynllun cyfrifiadurol newydd, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru yn syth.

### Rhywedd

Rhywedd yw sut y mae’r unigolyn yn adnabod ei hun, nid rhyw adeg geni. Efallai na fydd eu hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw ar eu tystysgrif geni. Dyma’r rhywedd hysbys diweddaraf ar 31 Mawrth, neu pan wnaeth y plentyn adael gofal. Gall unigolion wrthod darparu’r wybodaeth hon.

1 Gwryw
2 Benyw
3 Arall
4 Heb ei ddatgelu neu ddim yn gwybod

## Dyddiad geni

Dylai'r dyddiad geni gael ei ddarparu yn y fformat DD MM BBBB.

Defnyddiwch 'seroau arweiniol' os oes angen i sicrhau bod pob digid yn cael ei lenwi.

Os nad yw'r union ddyddiad geni yn hysbys, rhagdybiwch mai'r 15^fed o'r mis ydyw. Peidiwch â defnyddio diwrnod 1^af y mis fel dyddiad geni ffug.

## Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)

Caiff Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN) ei ddyrannu'n awtomatig i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Rhif adnabod yn unig ydyw, ac fe'i defnyddir mewn cyd-destun addysgol yn ystod gyrfa ysgol plentyn ac mae'n ddarostyngedig i gyfyngiadau Diogelu Data.

Rhaid i UPN gynnwys 13 o lythrennau yn y fformat Annnnnnnnnnnn neu AnnnnnnnnnnnA (ar gyfer UPN dros dro), gydag A yn dynodi llythyren ac n yn dynodi rhif. Mae UPNau dros dro yn cael eu cyhoeddi fel mesur dros dro yn unig hyd nes i'r UPN parhaol gael ei ddyroddi.

Rhaid i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech i olrhain UPN plentyn. Os na fydd plentyn wedi cael UPN gan ysgol a gynhelir, efallai y bydd wedi cael un gan Adran Addysg yr awdurdod lleol, sy'n gallu rhoi UPN i'r rhai sydd mewn darpariaeth amgen, er enghraifft. Dim ond os nad oes modd canfod UPN y dylid gadael yr eitem hon yn wag.

Noder bod Ysgolion Meithrin a gynhelir yn dyrannu UPNau hefyd, felly efallai y bydd gan blant UPN o pan fyddant yn 2 oed neu 3 oed ymlaen.

## Ethnigrwydd

Dylai ethnigrwydd gael ei benderfynu drwy ofyn yn y lle cyntaf i'r plentyn am ei hunaniaeth ethnig. Os nad yw eto yn ddigon hen i ymateb, gofynnwch i'w brif ofalwr.

WHTE1 - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
WHTE2 - Roma
WHTE3 - Unrhyw gefndir Gwyn arall (yn cynnwys Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig)
MIXD1 - Gwyn a Du Caribïaidd
MIXD2 - Gwyn a Du Affricanaidd
MIXD3 - Gwyn ac Asiaidd
MIXD4 - Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall
ASAB1 - Indiaidd
ASAB2 - Pacistanaidd
ASAB3 - Bangladeshaidd
ASAB4 - Tsieineaidd
ASAB5 - Unrhyw gefndir Asiaidd arall
BBAC1 - Caribïaidd
BBAC2 - Affricanaidd
BBAC3 - Unrhyw gefndir Du arall
OOTH1 - Arabaidd
OOTH2 - Unrhyw grŵp ethnig arall

UNKN1 – Ddim yn gwybod

### Anabledd

Dylid defnyddio’r codau canlynol:

Nodwch 0 am blentyn nad yw’n anabl;
Nodwch 1 am blentyn anabl;
Nodwch 2 am ddim yn gwybod.

At ddibenion yr eitem ddata hon, mae’r diffiniad o anabledd yn adran 3(5) o Ddeddf 2014 yn dilyn y diffiniad yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy’n nodi’r canlynol:

“Mae gan berson (P) anabledd os—

(a) oes gan P amhariad corfforol neu feddyliol, a
(b) bod yr amhariad yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu P i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.”

### Cod post cartref y plentyn

Cod post y cyfeiriad lle’r oedd y plentyn yn byw **pan ddechreuodd dderbyn gofal am y tro cyntaf**. Os dechreuodd y plentyn dderbyn gofal yn yr ysbyty ar ôl iddo gael ei eni, defnyddiwch gyfeiriad cartref y fam. Nodwch god post cartref y plentyn yn y fformat canlynol ee CF10 4SD. Nid oes rhaid nodi’r cod post cartref os mai lleoliad mabwysiadu oedd cyfnod diwethaf y plentyn yn ystod y flwyddyn (codau lleoliad A3, A4, A51, A52, A61, A62 ac A8). Os nad oes gan y plentyn gartref parhaol, defnyddiwch y cod post diweddaraf sydd ar gael.

Pan fo gan blentyn god post, ond na ellir ei roi oherwydd rhesymau diogelu, gofynion UASC, neu amgylchiadau tebyg, rhowch YYYY YYY.

Gadewch y maes cod post yn wag dim ond os na chofnodwyd cod post ar gyfer y plentyn erioed.

### Plentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches

Nodwch 1 os yw’r plentyn yn blentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches (UASC), a 0 os nad yw’n blentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches.

Ceisiwr lloches yw rhywun sydd wedi gwneud cais i gael ei ddiogelu ar sail y Confensiwn Ffoaduriaid neu Erthygl 3 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy’n aros am benderfyniad ar y cais hwnnw. Mae plentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches yn unigolyn dan oed (UASC), ac nid yn rhywun sy’n aelod o deulu sydd wedi cael statws ceisio lloches.

### Y dyddiad y daeth cyfnod y plentyn fel plentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches i ben

Nodwch y dyddiad y daeth cyfnod y plentyn fel plentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches i ben (os yw’n berthnasol).

Cofnodwch y diwrnod, y mis a’r flwyddyn fel a ganlyn: DD MM BBBB.

# Plant sy'n derbyn gofal – Cyfnodau gofal

## Cod awdurdod lleol

Mae'r codau a chanllawiau ar gael ar dudalen 8

## Rhif adnabod plentyn yr awdurdod lleol

Mae'r canllawiau ar gael ar dudalen 8

## Y dyddiad y dechreuodd y cyfnod

Mae'r eitem hon yn cofnodi'r dyddiad y dechreuodd pob cyfnod, ac mae'n 10 nod o hyd. Os bydd cyfnodau'n olynol, rhaid i'r cyfnod newydd ddechrau ar y diwrnod y daeth y cyfnod blaenorol i ben. Cofnodwch y diwrnod, y mis a'r flwyddyn fel a ganlyn: DD MM BBBB.

Enghraifft: Dylid cofnodi 4 Tachwedd 2024 fel 04/11/2024

Defnyddiwch 'seroau arweiniol' os oes angen i sicrhau bod pob digid yn cael ei lenwi.

Wrth gofnodi cytundeb i ddarparu cyfres o leoliadau tymor byr (statws cyfreithiol V1), nodwch yn y maes hwn ddyddiad dechrau'r lleoliad cyntaf o dan y cytundeb.

Os dechreuodd cyfnod yn ystod blwyddyn adrodd flaenorol, ond ei fod yn dal i fod ar agor ar 31 Mawrth, peidiwch â llenwi'r adrannau 'Y rheswm pam ddaeth y cyfnod i ben' a 'Y dyddiad y daeth y cyfnod i ben'. Yna, rhaid i gofnod y flwyddyn ganlynol ddechrau gyda'r un manylion, gan ddangos yr union ddyddiad y dechreuodd y cyfnod. (Os bydd y cyfnod yna'n dod i ben, dylid llenwi'r adrannau 'Y rheswm pam ddaeth y cyfnod i ben' a 'Y dyddiad y daeth y cyfnod i ben'.)

Ni all cyfnodau ddechrau a dod i ben ar yr un diwrnod. Pan fo plentyn yn cael dau newid statws cyfreithiol mewn un diwrnod dim ond yr ail statws cyfreithiol a gaiff ei gofnodi.

## Y rheswm dros y cyfnod newydd

Mae'r eitem hon yn cofnodi'r rheswm pam fo cyfnod newydd wedi'i ddangos yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.

Gan fod cyfnod yn cynnwys cyfuniad o leoliad a statws cyfreithiol, mae newid i unrhyw un o'r rhain, neu'r ddau, yn arwain at gyfnod newydd, ac mae'r rheswm yn yr eitem hon yn adlewyrchu hyn.

S Dechrau derbyn gofal
L Newid statws cyfreithiol yn unig
P Newid lleoliad yn unig
B Newid statws cyfreithiol a lleoliad ar yr un pryd
CT1 Gofal a gymerwyd drosodd gan awdurdod lleol arall yng Nghymru
CT2 Gofal a gymerwyd drosodd gan awdurdod lleol arall y tu allan i Gymru

Nodiadau:

Defnyddiwch y cod S pan fo plentyn yn dechrau derbyn gofal am y tro cyntaf, neu os oedd cyfnod blaenorol o dderbyn gofal wedi dod i ben a'i fod yn ailddechrau derbyn gofal. Defnyddir y cod S

hefyd os ydych chi'n cofnodi seibiannau byr unigol gan ddefnyddio statws cyfreithiol V1. I gael rhagor o wybodaeth am seibiannau byr, gweler yr adran ar Godau statws cyfreithiol.

Defnyddiwch y cod L pan fo'r statws cyfreithiol yn newid, ond nad yw'r lleoliad yn newid. Ystyr 'statws cyfreithiol' yw'r statws cyfreithiol sy'n sail i'r ffaith bod y plentyn yn derbyn gofal.

Defnyddiwch y cod P pan fo'r lleoliad yn newid, ond nad yw'r statws cyfreithiol yn newid.

Ceir rhai amgylchiadau penodol lle y gellir ystyried newid mewn lleoliad yn newid dros dro. Os felly, ni ddylid cofnodi'r newid yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal; mae'r achosion arbennig hyn wedi'u diffinio yn yr adran Codau Lleoliad.

Defnyddiwch y cod B pan fo'r statws cyfreithiol a'r lleoliad yn newid ar yr un diwrnod. Nid oes angen i'r ddau beth newid yr un pryd na bod yn ddibynnol ar ei gilydd. Mae'r cod yn adlewyrchu'r ffaith bod y lleoliad a'r statws cyfreithiol wedi newid, am ba bynnag reswm, yr un diwrnod.

Defnyddiwch y cod CT1 pan fo'r cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn wedi symud o awdurdod lleol arall yng Nghymru. Defnyddiwch y cod hwn hyd yn oed os yw'r symud hwn hefyd yn golygu newid statws cyfreithiol neu leoliad.

Defnyddiwch y cod CT2 pan fo'r cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn wedi symud o awdurdod lleol arall y tu allan i Gymru. Defnyddiwch y cod hwn hyd yn oed os yw'r symud hwn hefyd yn golygu newid statws cyfreithiol neu leoliad.

### Statws cyfreithiol

Mae'r cod statws cyfreithiol ar y ffurflen yn cofnodi'r statws cyfreithiol sy'n sail i'r plentyn yn 'derbyn gofal'. Pan fo plentyn yn derbyn gofal oherwydd ei fod yn cael ei letya, mae'r statws cyfreithiol yn helpu i ddisgrifio (mewn termau cyfreithiol o leiaf) pam mae'r plentyn yn derbyn gofal.

Mae statysau cyfreithiol eraill yn codi o Ddeddf 1989, Deddf 2014 neu'r system cyfiawnder ieuenctid nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar a yw plentyn yn 'derbyn gofal' ai peidio. Nid yw'r rhain yn cael eu cofnodi yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, ac ni ddarperir unrhyw godau statws cyfreithiol ar eu cyfer.

Newidiadau i statws cyfreithiol: egwyddorion cyffredinol:

Adnewyddu statws cyfreithiol presennol: Nid yw adnewyddu statws cyfreithiol presennol yn creu cyfnod newydd. Os na fydd y cod statws cyfreithiol yn newid, ni fydd angen cyfnod newydd (oni bai bod y lleoliad hefyd yn newid yr un pryd).

Enghraifft:

Pan fo plentyn eisoes yn derbyn gofal o dan orchymyn gofal interim, ni fydd adnewyddu'r gorchymyn gofal interim yn newid y statws cyfreithiol, felly nid oes rhaid cofnodi cyfnod newydd. Fodd bynnag, os bydd plentyn sy'n derbyn gofal o dan orchymyn gofal interim yn dod yn ddarostyngedig i orchymyn gofal llawn, bydd angen cyfnod newydd i gofnodi'r gorchymyn gofal llawn.

Mwy nag un statws cyfreithiol yr un pryd: O dan rai amgylchiadau, gall fod gan blentyn sy'n derbyn gofal fwy nag un statws cyfreithiol 'derbyn gofal'. Ar y cyfan, mae hyn yn digwydd pan fydd plentyn sydd eisoes yn 'derbyn gofal' o dan orchymyn gofal y Ddeddf Plant yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid ac, o ganlyniad, yn cael ei gadw mewn llety awdurdod lleol o dan ail statws cyfreithiol a fyddai hefyd yn golygu ei fod yn 'derbyn gofal'. Ni ellir dangos bod dau statws cyfreithiol yn gyfredol ar y ffurflen. Mewn achosion o'r fath, dylid cofnodi'r statws cyfreithiol diweddaraf a dylai'r cyfnod o dan y statws blaenorol gael ei gau.

Nid yw rhai statysau cyfiawnder ieuenctid yn gwneud plentyn yn blentyn sy'n 'derbyn gofal', hyd yn oed pan fo'r plentyn yn cael ei letya mewn uned ddiogel.

### Rhestr o godau statws cyfreithiol:

### Gorchmynion gofal:

Gorchymyn gofal interim C1
Gorchymyn gofal llawn C2

### Gorchymyn lleoli:

Gorchymyn lleol wedi'i ganiatáu E1

### Llety gwirfoddol:

Cael eu lletya o dan gyfres gytunedig o seibiannau tymor byr V1
Un cyfnod o letya o dan adran 76 o Ddeddf 2014 V2

### Cael eu cadw mewn llety awdurdod lleol am resymau amddiffyn plant:

O dan ddiogelwch yr heddlu ac mewn llety awdurdod lleol L1
Gorchymyn amddiffyn brys L2
O dan orchymyn asesu plentyn ac mewn llety awdurdod lleol L3

### Statysau cyfreithiol cyfiawnder ieuenctid:

Cael eu remandio i lety awdurdod lleol neu lety cadw ieuenctid J1
Cael eu cadw mewn llety awdurdod lleol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol J2

### Gwardiaeth:

Gwardiaeth wedi'i chaniatáu yn yr Uchel Lys a'r plentyn mewn llety awdurdod lleol W1

## Codau Statws Cyfreithiol: Nodiadau a Diffiniadau

### Gorchmynion gofal

### C1: Gorchymyn gofal interim

Deddf Plant 1989, adran 38. Para hyd at 8 wythnos, yna bydd angen ei adnewyddu. Nid yw adnewyddu yn creu cyfnod newydd yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, gan nad yw'r statws cyfreithiol wedi newid.

### C2: Gorchymyn Gofal

Deddf Plant 1989, adran 31(1)(a). Dim terfyn amser.

Dylai'r cod hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer y canlynol hefyd:

Gorchymyn gofal wedi'i estyn gan lys apêl, Deddf Plant 1989 adran 40(5)
Gorchymyn gofal yn disgwyl apêl, Deddf Plant 1989 adran 40(1) neu (3)
Gorchymyn gofal wedi'i drosglwyddo o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw. Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969 adrannau 26(1) a 26(2)

### Gorchymyn lleoli

### E1: Gorchymyn lleoli

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, adran 21

Gorchymyn lleoli yw gorchymyn llys sy'n rhoi awdurdod cyfreithiol i awdurdod lleol leoli plentyn i gael ei fabwysiadu gydag unrhyw ddarpar fabwysiadwyr a ddewisir gan yr awdurdod. Dim ond awdurdodau lleol sy'n gallu gwneud cais am orchmynion lleoli. Mae gorchymyn lleoli yn golygu bod y cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn cael ei rannu – i'r graddau a benderfynir gan yr awdurdod lleol – rhwng yr awdurdod lleol a rhieni'r plentyn. Mae'r gorchymyn yn parhau mewn grym hyd nes y bydd yn cael ei ddiddymu, bod gorchymyn mabwysiadu'n cael ei wneud mewn perthynas â'r plentyn, bod y plentyn yn priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil neu fod y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed. Tra bod y gorchymyn lleoli mewn grym, bydd y plentyn yn cadw ei statws derbyn gofal. Bydd effaith unrhyw orchymyn o dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989 – gorchmynion trefniadau plant, gorchymyn camau gwaharddedig, gorchymyn mater penodol – neu orchymyn goruchwylio yn dod i ben a bydd unrhyw orchymyn gofal presennol yn cael ei atal (a'i ddisodli gan y gorchymyn lleoli oni bai ei fod yn cael ei ddiddymu). Os caniateir gorchymyn gofal a gorchymyn lleoli ar yr un diwrnod, dim ond y gorchymyn lleoli y dylid ei gofnodi ar y ffurflen.

### Llety gwirfoddol

### V1: Cael eu lletya o dan gyfres gytunedig o seibiannau byr

Defnyddir gwahanol dermau i gyfeirio at y grŵp hwn o blant, gan gynnwys 'seibiannau tymor byr', 'lleoliadau cyswllt teuluol', 'gofal a rennir' a 'gofal seibiant'.

Dyma grŵp penodol o blant sy'n:

Byw gartref fel arfer ac nad ydynt yn 'derbyn gofal' fel arall, ac sy'n cael seibiannau oddi cartref am gyfnodau byr, gan fynd fel arfer at yr un gofalwr neu i'r un sefydliad preswyl.

Yn ystod y seibiannau, mae plant yn cael eu lletya o dan Ran 6, adran 76 o Ddeddf 2014. Rhaid i'r seibiannau fod yn rhan o raglen reolaidd o gymorth a gytunwyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r plant a'u rhieni neu warcheidwaid.

Ni all unrhyw un seibiant bara mwy na phedair wythnos o ofal parhaus (rheoliad 62 o Reoliadau 2015). Gall plentyn gael ei letya oddi cartref mewn cyfres o seibiannau byr sy'n para ar y cyfan am hyd at 120 o ddiwrnodau o dan un cytundeb mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis.

Cofnodwch fodolaeth cyfres o seibiannau byr a gynlluniwyd fel un cyfnod gofal parhaus. Mae hyn yn golygu y bydd plentyn sy'n derbyn gofal bob penwythnos o dan gynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn cael ei gofnodi unwaith gan ddefnyddio'r cod statws cyfreithiol V1, gan nodi ei fod wedi derbyn 52 o seibiannau byr.

### V2: Un cyfnod o letya o dan adran 76 o Ddeddf 2014.

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer pob cyfnod 'llety gwirfoddol', ac eithrio'r achos arbennig a gwmpesir gan god V1.

Peidiwch â chynnwys seibiannau sy'n rhan o gyfres o seibiannau byr a gynlluniwyd o dan drefniant parhaus.

## Cael eu cadw mewn llety awdurdod lleol am resymau amddiffyn plant

### L1: Plentyn o dan ddiogelwch yr heddlu mewn llety awdurdod lleol

Deddf Plant 1989, adran 46(1)

Defnyddir y cod hwn pan fo'r heddlu wedi mynd ati i ddiogelu plentyn wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mae terfyn amser o 72 awr i'r pŵer hwn.

### L2: Gorchymyn amddiffyn brys

Deddf Plant 1989, adrannau 44 a 45

Gorchymyn llys a wneir ar gais awdurdod lleol neu'r NSPCC, ac a gyfyngir i wyth diwrnod i gychwyn, gydag un estyniad o hyd at saith diwrnod yn bosibl (adran 45(5)).

Pan fo plentyn o dan Orchymyn Amddiffyn Brys (EPO) yn yr ysbyty, dylech drin y plentyn fel pe bai'n derbyn gofal os mai'r awdurdod lleol yw'r ymgeisydd neu os yw'r gorchymyn wedi'i drosglwyddo i'r awdurdod lleol.

### L3: O dan orchymyn asesu plentyn ac mewn llety awdurdod lleol

Deddf Plant 1989, adran 43

Gorchymyn llys sy'n caniatáu i awdurdod lleol asesu cyflwr iechyd neu les plentyn. Dim ond os bydd yn cael ei letya gan yr awdurdod lleol at ddiben cynnal yr asesiad y bydd y plentyn yn derbyn gofal.

## Statysau cyfreithiol cyfiawnder ieuenctid

### J1: Cael eu remandio i lety awdurdod lleol neu lety cadw ieuenctid

Ers 3 Rhagfyr 2012, pan ddaeth adrannau perthnasol y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr ("LAPSOA") i rym, bydd unrhyw blentyn sy'n cael ei remandio gan y llys

ieuenctid mewn achos cyfreithiol yn blentyn sy'n derbyn gofal, ni waeth a yw'r plentyn yn cael ei remandio i lety awdurdod lleol neu lety cadw ieuenctid.

Cyn i'r LASPOA ddod i rym, gallai plant gael eu remandio o dan ddau ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân sydd bellach wedi'i dirymu gan yr LASPOA: Roeddent fel a ganlyn:

A: Cael eu remandio i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am fodloni adran 23(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1969 fel y'i mewnosodwyd gan adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 ac adran 21(2) o Ddeddf Plant 1989;

B: Yn unol â gorchymyn llys, cael eu remandio a'u cadw mewn llety awdurdod lleol o dan adran 97 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Mae Grŵp A yn cyfeirio at bobl ifanc sy'n cael eu remandio i ofal awdurdod lleol lle nad ydynt wedi cael eu rhyddhau ar fechnïaeth. Yn yr achosion hyn, mae'r awdurdod lleol yn trefnu'r llety, sy'n gallu cynnwys y person ifanc yn cael ei leoli gyda'i rieni ei hun.

Mae Grŵp B yn cyfeirio at bobl ifanc a oedd yn destun remánd diogel yn unol â gorchymyn llys (COSR). Mae'r plant hyn yn derbyn gofal os ydynt yn cael eu lleoli mewn llety awdurdod lleol, gan gynnwys llety diogel.

Peidiwch â defnyddio'r cod hwn ar gyfer remánd ar fechnïaeth pan fo'r awdurdod lleol yn darparu'r llety; mae'r llety o dan adran 76 o Ddeddf 2014. Defnyddiwch y cod V2.

### J2: Cael eu cadw mewn llety awdurdod lleol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, adran 38(6); ac adran 77(2)(b) o Ddeddf 2014.

Defnyddiwch y cod hwn pan fydd person o dan 18 oed yn cael ei gadw mewn llety awdurdod lleol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, yn disgwyl y gwrandawiad llys cyntaf. Pan fo'r cyfnod mewn llety awdurdod lleol yn llai na 24 awr, peidiwch â chofnodi'r cyfnod yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.

Peidiwch â drysu rhwng y statws cyfreithiol hwn a gorchymyn goruchwylio a wneir o dan adran 31 neu 35 o Ddeddf 1989, nad yw'n statws 'derbyn gofal'.

## Y rheswm y dechreuodd y plentyn dderbyn gofal

Mae'r cod hwn yn nodi'r prif reswm pam mae plentyn yn derbyn gwasanaethau gofal a chymorth o dan Ran 6 o Ddeddf 2014.

Defnyddiwch y 'cod angen' mwyaf perthnasol **pan ddechreuodd y cyfnod presennol o dderbyn gofal**. Dylid parhau i gofnodi'r un cod yn y Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal cyn belled â bod y cyfnod o dderbyn gofal yn parhau, hyd yn oed os bydd yn para sawl blwyddyn.

Os caiff plentyn ei drosglwyddo o awdurdod lleol arall, cofnodwch y rheswm pam mae'r plentyn yn parhau i dderbyn gofal ar yr adeg y derbyniwyd y trosglwyddiad achos.

Mewn achosion pan fo plentyn wedi bod yn derbyn gofal am flynyddoedd lawer, rydym yn gofyn i awdurdodau lleol ddewis cod priodol i'r amgylchiadau pan ddechreuodd y plentyn dderbyn gofal am y tro cyntaf, os oes modd.

**Camdriniaeth neu esgeulustod N1:**
Plant sydd mewn angen **o ganlyniad i** gamdriniaeth neu esgeulustod, **neu sy'n wynebu risg o** gamdriniaeth neu esgeulustod; mae'n cynnwys plant sy'n wynebu risg oherwydd trais domestig hefyd.

**Anabledd neu salwch N2:**
Plant a'u teuluoedd y mae eu prif angen am wasanaethau'n codi **oherwydd** anabledd, salwch neu gyflwr cynhenid y plentyn.

**Anabledd neu salwch rhieni N3:**
Plant y mae eu prif angen am wasanaethau'n codi **oherwydd** bod gallu eu rhieni (neu eu gofalwyr) i ofalu amdanynt yn cael ei effeithio gan **anabledd, salwch corfforol neu feddyliol neu ddibyniaethau**'r rhiant (neu'r gofalwr).

**Teulu o dan straen difrifol N4:**
Plant y mae eu hanghenion yn codi o ganlyniad i fyw mewn teulu sy'n mynd drwy **argyfwng dros dro** sy'n effeithio ar allu'r rhieni i ddiwallu rhai o anghenion y plant yn ddigonol.

**Camweithrediad teuluol N5:**
Plant y mae eu hanghenion yn codi o ganlyniad i fyw mewn teulu lle **nad yw gallu'r rhieni yn ddigon da o bell ffordd**.

**Ymddygiad cymdeithasol annerbyniol N6:**
Plant a theuluoedd y mae eu hangen am wasanaethau'n codi o ganlyniad i **ymddygiad y plentyn** yn cael effaith andwyol ar y gymuned.

**Rhieni absennol N8:**
Plant y mae eu hangen am wasanaethau'n codi o ganlyniad i'r ffaith **nad yw eu rhieni ar gael** i ddarparu ar eu cyfer.

**Methiant y trefniant mabwysiadu N9:**
Y prif reswm dros ddechrau cyfnod o dderbyn gofal oedd **methiant y trefniant mabwysiadu mewn teulu**. Dylid dewis y cod hwn os yw'n berthnasol i'r amgylchiadau ar ddechrau'r cyfnod gofal presennol. Dim ond pan fydd y cyngor o'r farn bod y mabwysiadu wedi methu y dylid defnyddio'r cod hwn, ac ni ddylid ei ddefnyddio pan fo'r rhiant neu'r rhieni sy'n mabwysiadu wedi marw neu yn sâl neu'n anabl, pan ellir defnyddio codau presennol. Ni ddylid defnyddio'r cod ar gyfer lleoliadau seibiant tymor byr cytunedig pan fo'r mabwysiadu'n parhau.

## Lleoliad

At ddibenion y ffurflen ddata hon, gellir diffinio'r categori hwn fel un sy'n dangos lle mae'r plentyn yn byw. Mewn rhai achosion pan fo plentyn yn byw yn yr un lleoliad, bydd y cod lleoliad yn newid a bydd angen cofnodi cyfnod newydd.

Newidiadau i leoliad ar y ffurflen ddata:

Mae'r newidiadau hyn yn digwydd naill ai pan fo plentyn:

- yn symud i leoliad newydd (hyd yn oed os nad oes angen defnyddio cod lleoliad gwahanol); dyma'r newid mwyaf cyffredin; neu
- pan fo'r plentyn yn aros yn yr un lleoliad, ond bod y cod lleoliad yn newid am unrhyw reswm arall (ee bod y plentyn yn cael ei 'leoli i'w fabwysiadu' gyda'r rhieni maeth blaenorol). Mae hyn yn llai cyffredin, ond dylid sicrhau bod y newid hwn yn cael ei gofnodi'n gywir.

Yn y ddau achos, mae'r ffaith ei fod yn newid lleoliad yn cael ei nodi gan ddefnyddio codau P neu B ar gyfer 'Y rheswm dros y Cyfnod newydd'.

Enghreifftiau:

- Bydd plentyn mewn lleoliad maeth sy'n symud o un gofalwr maeth i un arall angen cyfnod newydd (er, mewn llawer o achosion, bydd y cod lleoliad yn y cyfnod newydd yr un fath).
- Bydd plentyn sy'n symud o un lleoliad maeth i gartref cymunedol angen cyfnod newydd a chod lleoliad newydd.
- Bydd plentyn mewn lleoliad maeth sy'n cael ei leoli i'w fabwysiadu gyda'r un gofalwr maeth angen cyfnod newydd a chod lleoliad newydd (er bod y plentyn yn byw yn yr un lle).

## Lleoliadau nad ydynt yn cael eu cofnodi

At ddibenion ystadegol, rhaid dilyn yr egwyddorion canlynol yn gyson.

Nid yw lleoliadau'n cael eu cofnodi o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Cyfnodau dros dro yn yr ysbyty (ee i drin anaf neu salwch dros dro). Nid yw'r rhain yn amodol ar derfyn amser. Nid yw'r rhain yr un fath â lleoliadau parhaol a gynlluniwyd mewn lleoliad meddygol neu nyrsio (megis unedau penodedig i blant ag anghenion arbennig a ddarperir gan Ymddiriedolaeth y GIG);
- Absenoldebau dros dro gan fod y plentyn ar wyliau. I'r diben hwn, mae 'gwyliau' yn golygu sefyllfa pan fo'r plentyn yn mynd i ffwrdd dros dro, gyda'i ofalwyr neu hebddynt, at ddibenion hamdden. Mae'n cwmpasu'r un mathau o seibiant yn yr un mathau o leoliad gwyliau ag y byddai plentyn nad yw'n derbyn gofal yn eu derbyn, ac yn cynnwys gweithgareddau megis teithiau ysgol a gwersylloedd sgowtiaid neu geidiau. Nid oes unrhyw derfyn amser ar wyliau o'r fath.
- Gwyliau gofalwyr maeth. Arhosiad dros dro a gynlluniwyd gyda gofalwr arall gan fod gofalwr maeth arferol y plentyn oddi cartref ar wyliau, neu'n cael seibiant o ofalu am y plentyn. Efallai y bydd y plentyn yn symud i aros gyda gwahanol ofalwr maeth neu i uned breswyl, neu efallai y bydd yn derbyn gofal gan ofalwr maeth arall sy'n dod i gartref gofalwr arferol y plentyn.
- Ond: Dylai seibiannau o fwy na 21 o ddiwrnodau gael eu cofnodi yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chael eu cynnwys yn y cyfrifiad o ddangosyddion perfformiad. Os bydd mwy nag un seibiant o'r fath sy'n para rhwng 8 a 21 o ddiwrnodau yn dechrau yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, dylid cofnodi'r trydydd seibiant ac unrhyw seibiannau ar ôl hynny.

Arosiadau eraill i ffwrdd o'r lleoliad sy'n para saith diwrnod yn olynol neu lai i gadw cysylltiad rhwng y plentyn a pherthynas (megis 'cyfnodau prawf' yn y cartref). Gall hyn gynnwys plant sy'n cael eu lletya o dan adran 76 o Ddeddf 2014. I gyfrifo saith diwrnod at y diben hwn, tynnwch y dyddiad cyntaf o'r ail. Er enghraifft, os gadawodd plentyn leoliad ar 1 Mawrth, gan ddychwelyd yno ar 8 Mawrth, dylech drin y cyfnod hwn fel saith diwrnod.

Mae'r holl eithriadau a amlinellir uchod yn cyfeirio'n benodol at amgylchiadau pan fo disgwyliad clir y bydd y plentyn yn dychwelyd i'r un lleoliad. Os nad oedd unrhyw ddisgwyliad clir y byddai'r plentyn yn dychwelyd i'r un lleoliad, neu os na ddychwelodd y plentyn (beth bynnag oedd y bwriad), nodir bod y lleoliad wedi newid a dylid adlewyrchu hyn drwy ddechrau cyfnod newydd yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.

Bydd achosion eraill o newidiadau lleoliad byr (naill ai wedi'u cynllunio neu heb eu cynllunio) lle nad oes unrhyw ddisgwyliad clir bod y plentyn ar fin dychwelyd i'r un lleoliad. Rhaid i'r newidiadau hyn gael eu cofnodi, am faint bynnag y byddant yn para.

Cyfnodau prawf yn y cartref a gynlluniwyd pan fo plentyn yn cael ei letya o dan adran 76 o Ddeddf 2014:

Yn wahanol i'r sefyllfa pan fo plentyn o dan orchymyn gofal (pan fyddai Rheoliadau 2015 yn llywodraethu cyfnodau prawf pan fyddai plentyn yn cael ei leoli yn ei gartref), pan fo plentyn sy'n cael ei letya o dan adran 76 ar seibiant cartref prawf, gellid dweud bod y 'cyfnod gofal' wedi torri. O dan amgylchiadau o'r fath, os bydd y seibiant cartref yn para saith diwrnod neu lai, os bydd yn seibiant bwriadol a gynlluniwyd ac os bydd y plentyn yn dychwelyd i'r lleoliad gwreiddiol, dylai'r seibiant gael ei anwybyddu a dylai'r llety o dan adran 76 gael ei drin fel un lleoliad parhaus. Dylai cyfnodau o wyth diwrnod neu fwy gael eu trin fel cyfnodau allan o ofal pan nad yw'r plentyn yn derbyn gofal, a rhaid iddynt gael eu cofnodi fel seibiannau yn y cyfnod gofal yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.

Gofal plentyn yn cael ei rannu'n rheolaidd rhwng dau leoliad:

Mae hyn yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle nad yw'r canllawiau uchod ar leoliadau dros dro yn gymwys. Gall gofal plentyn gael ei rannu rhwng dau leoliad neu fwy yn rheolaidd ee mewn ysgol arbennig ac mewn cartref maeth. Pan fo'r patrwm rhannu yn un sefydlog ac wedi'i gynllunio ee 3 noson mewn un lleoliad a 4 noson mewn lleoliad arall, neu un lleoliad yn ystod y tymor a lleoliad arall yn ystod gwyliau, dylai gael ei gofnodi fel un cyfnod parhaus a'i godio yn unol â'r lleoliad lle mae'r plentyn yn treulio'r mwyaf o amser.

(Nid yw'r canllawiau hyn yn gymwys i blant o dan gyfres gytunedig o seibiannau tymor byr, sy'n rhan o grŵp arbennig a nodir gan ddefnyddio statws cyfreithiol V1 – gweler y nodiadau ar Statws Cyfreithiol).

Pan fo gofalwr maeth yn symud tŷ:

Pan fo'r hen gartref a'r cartref newydd o fewn ffin eich ALl, ni chofnodir newid lleoliad.

Pan fo'r hen dŷ a'r tŷ newydd y tu allan i ffin eich ALl, ni chofnodir newid lleoliad.

Os oedd yr hen dŷ y tu mewn i ffin eich ALI, a bod y tŷ newydd y tu allan i'r ffin, neu i'r gwrthwyneb, cofnodir newid lleoliad gan fod dosbarthiad y lleoliad wedi newid.

Lleoliadau gyda ffrindiau neu berthnasau:

Os bydd lleoliad maeth yn dechrau fel lleoliad brys gyda ffrind neu berthynas o dan reoliad 26 o Reoliadau 2015 ac os bydd y gofalwr yn mynd ymlaen i fod yn ofalwr maeth cymeradwy sy'n gofalu am yr un plentyn, dylai'r lleoliad barhau i gael ei godio fel F1 (neu F4) ac ni ddylai cyfnod newydd gael ei gofnodi.

Trefniadau ariannu ar y cyd:

Pan fo'r llety wedi'i drefnu gan yr awdurdod lleol, a phan fo'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi cyfrannu at y gwaith cynllunio a'r gwariant ar y lleoliad, at ddibenion y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, bydd y plentyn fel arfer yn cael ei ystyried yn blentyn sy'n 'derbyn gofal'.

## Rhestr o godau lleoliad:

## Lleoliadau teuluol

## Lleoliadau maeth:

***Y gofalwr yn byw o fewn ffiniau'r ALI***
Lleoliad gyda pherson cysylltiedig (ee perthynas neu ffrind) F1
Lleoliad gyda gofalwyr maeth eraill, a ddarperir gan eich ALI F2
Lleoliad gyda gofalwyr maeth arall, a ddarperir gan ALI gwahanol F21
Lleoliad gyda gofalwr maeth arall, a drefnir drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol yn y trydydd sector F31
Lleoliad gyda gofalwr maeth arall, a drefnir drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol breifat F32
Lleoliad maeth rhiant a phlentyn F7

***Y gofalwr yn byw y tu allan i ffiniau'r ALI***
Lleoliad gyda pherson cysylltiedig (ee perthynas neu ffrind) F4
Lleoliad gyda gofalwyr maeth eraill, a ddarperir gan eich ALI F5
Lleoliad gyda gofalwyr maeth arall, a ddarperir gan ALI gwahanol F51
Lleoliad gyda gofalwr maeth arall, a drefnir drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol yn y trydydd sector F61
Lleoliad gyda gofalwr maeth arall, a drefnir drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol breifat F62
Lleoliad maeth rhiant a phlentyn F8

## Cael eu lleoli i'w mabwysiadu gyda chydsyniad:

Plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu gyda chydsyniad (o dan adran 19 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002) gyda'r gofalwr maeth presennol A3
Plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu gyda chydsyniad (o dan adran 19 o Ddeddf 2002) ond nid gyda'r gofalwr maeth presennol A4

**Cael eu lleoli i'w mabwysiadu yn unol â gorchymyn lleoli:**

Plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu yn unol â gorchymyn lleoli gyda chydsyniad (o dan adran 213(a) o Ddeddf 2002) gyda'r gofalwr maeth presennol A51

Plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu yn unol â gorchymyn lleoli pan fo cydsyniad wedi'i hepgor (o dan adran 213(b) o Ddeddf 2002) gyda'r gofalwr maeth presennol A52

Plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu yn unol â gorchymyn lleoli gyda chydsyniad (o dan adran 213(a) o Ddeddf 2002) ond nid gyda'r gofalwr maeth presennol A61

Plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu yn unol â gorchymyn lleol pan fo cydsyniad wedi'i hepgor (o dan adran 213(b) o Ddeddf 2002) ond nid gyda'r gofalwr maeth presennol A62

**Plant wedi'u lleoli gyda darpar rieni sy'n mabwysiadu cyn y gwneir gorchymyn lleoli:**

Plentyn wedi'i leoli gyda darpar rieni sy'n mabwysiadu cyn y gwneir gorchymyn lleoli (o dan adran 81(11) o Ddeddf 2014 a rheoliad 25 o Reoliadau 2015) A8

**Plant wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain:**

Plentyn wedi'i leoli gyda'i rieni ei hun neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant P1

**Lleoliadau eraill yn y gymuned**

Byw'n annibynnol ee mewn fflat neu lety heb staff cymorth ffurfiol ar y safle, neu mewn fflat un ystafell, cyfleuster gwely a brecwast neu gyda ffrindiau P2

Cyflogaeth breswyl P3

**Lleoliadau mewn lleoliadau preswyl**

**Yn derbyn gofal, ac wedi'u lleoli mewn uned ddiogel:**

Uned ddiogel o fewn ffiniau'r ALl H1

Uned ddiogel y tu allan i ffiniau'r ALl (yng Nghymru) H21

Uned ddiogel y tu allan i Gymru H22

**Lleoliadau mewn cartrefi sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau sy'n cwmpasu gwasanaeth cartref gofal i blant.**

Y rhain yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 pan fo'r gwasanaeth cartref gofal (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant. Os caiff plentyn ei leoli mewn cartref plant yn Lloegr, y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Cartrefi Plant (Lloegr) 2015.

Cartrefi o fewn ffiniau'r ALl H3

Cartrefi y tu allan i ffiniau'r ALl H4

**Lleoliadau mewn hosteli ac mewn lleoliadau preswyl cefnogol ac eithrio gwasanaeth cartref gofal i blant:**

Llety preswyl nad yw'n ddarostyngedig i'r rheoliadau sy'n cwmpasu gwasanaeth cartref gofal i blant H5

### Lleoliadau mewn lleoliadau preswyl eraill:

Y GIG neu Ymddiriedolaeth Iechyd neu sefydliad arall sy'n darparu gofal meddygol neu nyrsio R2

Canolfan breswyl i deuluoedd neu uned mam a baban R3

Sefydliad troseddwyr ifanc neu garchar R5

### Ysgolion:

Pob ysgol breswyl, ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cofrestru fel ysgol a chartref gofal i blant S1

### Lleoliadau eraill nad ydynt wedi'u rhestru uchod:

Lleoliadau eraill Z1

### Codau Lleoliad: Nodiadau a Diffiniadau

### F1: Lleoliad gyda pherson cysylltiedig (ee perthynas neu ffrind): wedi'i leoli o fewn ffiniau'r ALl

Mae hyn yn cynnwys lleoliadau brys o dan reoliad 26 o Reoliadau 2015, lle nad yw'r person yn rhiant maeth cymeradwy, a lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy sy'n berthynas neu'n ffrind. Os bydd lleoliad yn dechrau fel lleoliad o dan reoliad 26 a bod y gofalwr yna'n dod yn ofalwr maeth cymeradwy, peidiwch â dechrau cyfnod newydd ond cadwch yr un cod os bydd y plentyn yn aros gyda'r gofalwr hwnnw. Mae 'o fewn ffiniau'r ALl' yn golygu bod y gofalwr yn byw yn ardal ddaearyddol eich ALl.

### F2: Lleoliad maeth gyda gofalwr arall, a ddarperir gan eich ALl. Y gofalwr wedi'i leoli o fewn ffiniau'r ALl

Defnyddiwch:

Pan fo'r lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy arall, yn hytrach na pherthynas neu ffrind;

Pan fo'ch ALl wedi darparu lleoliad mewnol;

Pan fo'r gofalwr yn byw yn ardal ddaearyddol eich ALl.

### F21: Lleoliad maeth gyda gofalwr arall, a ddarperir gan ALl gwahanol. Y gofalwr wedi'i leoli o fewn ffiniau'r ALl

Defnyddiwch:

Pan fo'r lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy arall, yn hytrach na pherthynas neu ffrind;

Pan fo ALl arall wedi darparu lleoliad mewnol;

Pan fo'r gofalwr yn byw yn ardal ddaearyddol eich ALl.

### F31: Lleoliad maeth gyda gofalwr arall, a drefnir drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol yn y trydydd sector. Y gofalwr wedi'i leoli o fewn ffiniau'r ALl

Defnyddiwch:

Pan fo'r lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy arall, yn hytrach na pherthynas neu ffrind;

Pan fo'ch ALl wedi trefnu'r lleoliad drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol yn y trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau a drefnir drwy ALlau eraill;

Pan fo'r gofalwr yn byw yn ardal ddaearyddol eich ALl.

### F32: Lleoliad maeth gyda gofalwr arall, a drefnir drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol breifat. Y gofalwr wedi'i leoli o fewn ffiniau'r ALl

Defnyddiwch:

Pan fo'r lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy arall, yn hytrach na pherthynas neu ffrind;
Pan fo'ch ALl wedi trefnu'r lleoliad drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol breifat. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau a drefnir drwy ALlau eraill;
Pan fo'r gofalwr yn byw yn ardal ddaearyddol eich ALl.

### F7: Lleoliad rhiant a phlentyn gyda gofalwr maeth. Y gofalwr wedi'i leoli o fewn ffiniau'r ALl

Defnyddiwch:
Pan fo'r plentyn a'r rhiant (rhieni) yn cael eu lleoli gyda gofalwr maeth.
Pan fo'r lleoliad yn lleoliad arbenigol wedi'i ddylunio i gynnig cymorth ac arweiniad i wella sgiliau rhianta'r rhiant (rhieni) fel y gallant ofalu'n ddiogel am eu plentyn ar eu pen eu hunain.
Pan fo'r lleoliad yn ardal ddaearyddol eich ALl.
Pan fo'r lleoliad yn lleoliad rhiant a baban, ni waeth p'un a yw'r lleoliad yn cael ei ddarparu'n fewnol neu'n annibynnol.

### F4: Lleoliad gyda pherson cysylltiedig (ee perthynas neu ffrind): y tu allan i ffiniau'r ALl

Mae hyn yn cynnwys lleoliadau brys o dan reoliad 26 o Reoliadau 2015, lle nad yw'r person yn rhiant maeth cymeradwy, a lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy sy'n berthynas neu'n ffrind. Os bydd lleoliad yn dechrau fel lleoliad o dan reoliad 26 a bod y gofalwr yna'n dod yn ofalwr maeth cymeradwy, peidiwch â dechrau cyfnod newydd ond cadwch yr un cod os bydd y plentyn yn aros gyda'r gofalwr hwnnw. Mae 'y tu allan i ffiniau'r ALl' yn golygu bod y gofalwr yn byw y tu allan i ardal ddaearyddol eich ALl.

### F5: Lleoliad maeth gyda gofalwr arall, a ddarperir gan eich ALl. Y gofalwr wedi'i leoli y tu allan i ffiniau'r ALl

Defnyddiwch:

Pan fo'r lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy arall, yn hytrach na pherthynas neu ffrind;
Pan fo'ch ALl wedi darparu lleoliad mewnol;
Pan fo'r gofalwr yn byw y tu allan i ardal ddaearyddol eich ALl.

### F51: Lleoliad maeth gyda gofalwr arall, a ddarperir gan ALl gwahanol. Y gofalwr wedi'i leoli y tu allan i ffiniau'r ALl

Defnyddiwch:

Pan fo'r lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy arall, yn hytrach na pherthynas neu ffrind;
Pan fo ALl arall wedi darparu lleoliad mewnol;
Pan fo'r gofalwr yn byw y tu allan i ardal ddaearyddol eich ALl.

### F61: Lleoliad maeth gyda gofalwr arall, a drefnir gan Asiantaeth Faethu Annibynnol yn y trydydd sector. Y gofalwr wedi'i leoli y tu allan i ffiniau'r ALl

Defnyddiwch:

Pan fo’r lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy arall, yn hytrach na pherthynas neu ffrind;
Pan fo’ch ALl wedi trefnu’r lleoliad drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol yn y trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau a drefnir drwy ALlau eraill;
Pan fo’r gofalwr yn byw y tu allan i ardal ddaearyddol eich ALl.

### F62: Lleoliad maeth gyda gofalwr arall, a drefnir gan Asiantaeth Faethu Annibynnol breifat. Y gofalwr wedi’i leoli y tu allan i ffiniau’r ALl

Defnyddiwch:

Pan fo’r lleoliad gyda gofalwr maeth cymeradwy arall, yn hytrach na pherthynas neu ffrind;
Pan fo’ch ALl wedi trefnu’r lleoliad drwy Asiantaeth Faethu Annibynnol breifat. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau a drefnir drwy ALlau eraill;
Pan fo’r gofalwr yn byw y tu allan i ardal ddaearyddol eich ALl.

### F8: Lleoliad rhiant a phlentyn gyda gofalwr maeth. Y gofalwr wedi’i leoli y tu allan i ffiniau’r ALl

Defnyddiwch:
Pan fo’r plentyn a’r rhiant (rhieni) yn cael eu lleoli gyda gofalwr maeth.
Pan fo’r lleoliad yn lleoliad arbenigol wedi’i ddylunio i gynnig cymorth ac arweiniad i wella sgiliau rhianta’r rhiant (rhieni) fel y gallant ofalu’n ddiogel am eu plentyn ar eu pen eu hunain.
Pan fo’r lleoliad y tu allan i ardal ddaearyddol eich ALl.
Pan fo’r lleoliad yn lleoliad rhiant a baban ni waeth p’un a yw’r lleoliad yn cael ei ddarparu’n fewnol neu’n annibynnol.

### A3, A4, A51, A52, A61 ac A62: Cael eu lleoli i’w mabwysiadu

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, adran 42, a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983, Rheoliad 12

Ar ôl i asiantaeth fabwysiadu (sy’n cynnwys ALl at y diben hwn) benderfynu’n ffurfiol bod y darpar fabwysiadwyr yn addas, rhaid i’r plentyn fyw gyda nhw am o leiaf 10 wythnos cyn y gall gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud. Dylai’r cod lleoliad hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer yr amgylchiadau hyn. Pan fydd plentyn yn cael ei leoli gyda’i ofalwyr maeth presennol, dylid defnyddio’r cod hwn a bydd angen cofnodi cyfnod newydd, er nad yw’r plentyn yn symud.

Mae’r dyddiad i’w gofnodi ar ffurflen y cyfrifiad plant sy’n derbyn gofal ar ddechrau’r lleoliad ar gyfer mabwysiadu yn cael ei bennu fel a ganlyn:

- Os nad y gofalwr maeth presennol yw’r rhiant sy’n mabwysiadu, defnyddiwch A4, A61 neu A62 fel y cod lleoliad a nodwch y dyddiad mae’r plentyn yn symud i’r lleoliad ac yn dechrau byw gyda’r darpar fabwysiadwyr yn barhaol.
- Pan fo plentyn yn cael ei leoli i’w fabwysiadu gyda gofalwr maeth y plentyn, gyda chytundeb yr ALl, defnyddiwch A3, A51 neu A52 fel y cod lleoliad a nodwch y dyddiad mae’r ALl yn penderfynu’n ffurfiol, yn ei rôl fel asiantaeth fabwysiadu, y bydd y plentyn yn cael ei leoli i’w fabwysiadu gyda’r darpar riant sy’n mabwysiadu. (Weithiau, gelwir y dyddiad hwn yn

"ddyddiad paru plant â mabwysiadwyr", ac nid yw o reidrwydd yr un fath â'r dyddiad a argymhellwyd gan y panel).

- Pan fo gofalwr maeth presennol plentyn yn gwneud cais i fabwysiadu'r plentyn heb gymorth ALI, defnyddiwch A3, A51 neu A52 fel y cod lleoliad a nodwch y dyddiad mae'r cais mabwysiadu'n cael ei gyflwyno i'r llys.

Mae adran 19 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn nodi:

Pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi ei bodloni bod pob rhiant neu warcheidwad wedi rhoi cydsyniad i blentyn

(a) cael ei leoli i'w fabwysiadu gyda darpar fabwysiadwyr a nodwyd yn y cydsyniad, neu

(b) cael ei leoli i'w fabwysiadu gydag unrhyw ddarpar fabwysiadwyr a ddewisir gan yr asiantaeth,

ac nad yw wedi tynnu'r cydsyniad yn ei ôl, mae'r asiantaeth wedi'i hawdurdodi i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu yn unol â hynny.

Mae adran 21 3 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn nodi'r amodau pan all llys wneud gorchymyn lleoli

(3) Ni chaiff y llys ond gwneud gorchymyn lleoli os yw'r llys, yn achos pob rhiant neu warcheidwad i'r plentyn, wedi ei fodloni—

(a) bod y rhiant neu'r gwarcheidwad wedi rhoi cydsyniad i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu gydag unrhyw ddarpar fabwysiadwyr a ddewisir gan yr awdurdod lleol a heb dynnu'r cydsyniad yn ei ôl, neu

(b) y dylid hepgor cydsyniad y rhiant neu'r gwarcheidwad.

### A8: Cael eu lleoli gyda darpar rieni sy'n mabwysiadu cyn y gwneir gorchymyn lleoli

Defnyddiwch y cod hwn mewn sefyllfa pan fo plentyn yn cael ei leoli gyda darpar rieni sy'n mabwysiadu y mae'r plentyn wedi'i baru â nhw cyn i orchymyn lleoli gael ei wneud (o dan adran 81(11) o Ddeddf 2014 a rheoliad 25 o Reoliadau 2015).

### P1: Cael eu lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer unrhyw leoliad gyda rhieni plentyn, neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant (yn unol â'r diffiniad yn Neddf 1989). Nid yw'r cod lleoliad hwn wedi'i gyfyngu i blant o dan orchmynion gofal. Fodd bynnag:

- Dylai seibiannau cartref byr ar gyfer plant sy'n cael eu lletya o dan adran 76 o Ddeddf 2014 gael eu codio yn unol â'n cyfarwyddiadau, a'u hystyried at ddibenion y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a dangosyddion perfformiad fel cyfnodau allan o ofal os ydynt yn para wyth diwrnod neu fwy.

### P2: Byw'n annibynnol ee mewn fflat neu lety heb staff cymorth ffurfiol ar y safle, neu mewn fflat un ystafell, cyfleuster gwely a brecwast neu gyda ffrindiau

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer sefyllfa pan fo'r person ifanc yn byw'n annibynnol ac nad oes staff cymorth ffurfiol yn byw yn yr eiddo nac yn bresennol yn ystod y dydd.

Felly, mae lleoliadau yng nghategori P2 yn wahanol i'r rhai yn H5 (byw'n annibynnol pan fo cymorth ffurfiol ar gael).

### P3: Cyflogaeth breswyl

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer prentisiaethau a hyfforddiant cyflogaeth pan fo elfen gyflogaeth glir a phan fo llety'n cael ei ddarparu.

### H1: Cael eu lleoli mewn llety diogel, o fewn ffiniau'r ALl.

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer pob lleoliad mewn llety diogel o fewn ffiniau eich ALl, naill ai pan fo adran 119 o Ddeddf 2014 yn berthnasol (neu lle byddai'n gymwys ar ôl 72 awr) neu pan fo'r plentyn yn destun remánd diogel yn unol â gorchymyn llys. Cofnodwch y rhain fel lleoliadau ar wahân, hyd yn oed pan fo'r llety diogel yn rhan o gartref plentyn a phan fo'r plentyn fel arfer wedi'i leoli yn y cartref hwnnw. Peidiwch â defnyddio'r cod H1 ar gyfer y canlynol:

- Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant o dan adran 73 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, neu
- Plant sy'n cael eu cadw o dan adrannau 90 i 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol 2000, hyd yn oed os ydynt yn cael eu lleoli mewn llety awdurdod lleol.

Nid yw'r rhain yn cael eu cofnodi yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.

### H21: Cael eu lleoli mewn llety diogel, y tu allan i ffiniau'r ALl ond yng Nghymru.

Yn amodol ar yr un diffiniad â chod H1, ond dylech ei ddefnyddio pan fo'r llety diogel wedi'i leoli y tu allan i ffin eich ALl ond yng Nghymru.

### H22: Cael eu lleoli mewn llety diogel, y tu allan i Gymru

Yn amodol ar yr un diffiniad â chod H1, ond dylech ei ddefnyddio pan fo'r llety diogel y tu allan i Gymru, gyda'r cais am lety diogel y tu allan i Gymru wedi'i wneud o dan adran 25 o Ddeddf 1989.

### H3: Cartrefi yn ddarostyngedig i'r rheoliadau sy'n cwmpasu gwasanaeth cartref gofal i blant o fewn ffiniau'r ALl

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer pob gwasanaeth cartref gofal i blant o fewn ffiniau eich ALl sy'n dod o fewn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Mae gwasanaeth cartref gofal i blant sy'n gofrestredig o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi'i ddiffinio yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

### H4: Cartrefi yn ddarostyngedig i'r rheoliadau sy'n cwmpasu gwasanaeth cartref gofal i blant y tu allan i ffiniau'r ALl

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer pob gwasanaeth cartref gofal i blant sy'n gofrestredig o dan Ddeddf 2016 y tu allan i ffiniau eich ALl, yn unol â'r diffiniad ar gyfer cod H3. Dylid cynnwys hefyd gartrefi plant yn Lloegr, a'r rhai sy'n dod o dan Reoliadau Cartrefi Plant (Lloegr) 2015.

### H5: Hosteli a lleoliadau preswyl cefnogol heblaw gwasanaeth cartref gofal i blant nad ydynt yn ddarostyngedig i'r rheoliadau sy'n cwmpasu gwasanaethau cartref gofal i blant sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 2016

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer llety preswyl nad yw'n ddarostyngedig i'r rheoliadau sy'n cwmpasu gwasanaethau cartref gofal i blant sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 2016 ond pan fo rhai aelodau staff goruchwylio neu gynghori yn cael eu cyflogi (er nad oes rhaid iddynt fyw yn yr eiddo). Am ragor o wybodaeth, gweler Rheoliadau, canllawiau statudol a Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'n cynnwys hosteli, cynteddau, YMCAs a chartrefi yn ddarostyngedig i'r rheoliadau sy'n cwmpasu gwasanaeth cartref gofal i oedolion yn unig. Mae hefyd yn cynnwys llety, fflatiau a fflatiau un ystafell pan fo staff goruchwylio neu weithwyr cynghori yn cael eu cyflogi'n benodol ac ar gael i ddarparu cyngor a chymorth i'r preswylwyr. Nid oes rhaid i'r staff cymorth hyn fyw yn yr eiddo, ond rhaid iddynt fod yn rhan annatod o wasanaeth cymorth ffurfiol a ddarperir gan y lleoliad preswyl.

Felly, mae lleoliadau yng nghategori H5 yn wahanol i'r rhai yn P2 (byw'n annibynnol lle na ddarperir unrhyw strwythur cymorth ffurfiol fel rhan o'r llety).

### R2: Y GIG neu Ymddiriedolaeth Iechyd neu sefydliad arall sy'n darparu gofal meddygol neu nyrsio

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer ysbytai o bob math pan fydd y plentyn yn cael ei leoli yno yn rhan o'r cynllun gofal. (Nid yw arosiadau dros dro mewn ysbytai i dderbyn triniaeth am anafiadau neu salwch yn perthyn i'r categori hwn ac nid ydynt yn cael eu cofnodi fel arfer yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal). Dylech ei ddefnyddio hefyd ar gyfer cyfleusterau eraill a ddarperir gan ymddiriedolaethau iechyd.

### R3: Canolfan breswyl i deuluoedd neu uned mam a baban

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer lleoliad mewn canolfan i deuluoedd preswyl, yn unol â'r diffiniad ym mharagraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 neu leoliad mewn cyfleuster preswyl i famau a babanod (ac eithrio ysbytai a chyfleusterau eraill y GIG).

### R5: Sefydliad troseddwyr ifanc neu garchar

Defnyddiwch y cod hwn ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya yn un o'r lleoliadau hyn. Plant fydd y rhain fel arfer (naill ai ar remánd neu'n cwblhau dedfryd), a bydd ganddynt orchymyn gofal cydredol.

### S1: Ysgol

Mae paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn diffinio pa ysgolion sydd y tu allan i'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal rheoleiddiedig o dan y Ddeddf honno.

### Z1: Lleoliad arall, nad yw wedi'i restru uchod.

Defnyddiwch y cod hwn mewn amgylchiadau eithriadol, lle nad yw'r lleoliad yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau eraill a nodir uchod. Nid yw'n golygu 'gwybodaeth yn anhysbys' neu 'ddim ar gael'. Rhaid cynnwys rhestr o ddefnyddiau'r lleoliad hwn gyda'r cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, gan ddisgrifio'r lleoliad ym mhob achos.

### Y dyddiad y daeth y cyfnod i ben

Mae'r eitem hon yn cofnodi'r dyddiad y daeth pob cyfnod i ben. Bydd y dyddiad hwn yn ystod y flwyddyn ddata bresennol bob amser. Cofnodwch y diwrnod, y mis a'r flwyddyn fel a ganlyn: DD MM BBBB.

Er enghraifft: Dylid cofnodi 4 Tachwedd 2024 fel 04/11/2024.

Wrth gwblhau'r eitem hon:

- Ni all cyfnod ddechrau a dod i ben yr un diwrnod;
- Rhaid i gyfnod sy'n parhau ddechrau ar yr un diwrnod ag y daeth y cyfnod blaenorol i ben.

Ni ddylid cofnodi cyfnodau mewn llety awdurdod lleol o lai na 24 awr ar y ffurflen hon.

Os na fydd y cyfnod yn dod i ben yn ystod y flwyddyn (ac os yw'r plentyn yn derbyn gofal ar noson 31 Mawrth 2026), rhaid gadael y maes hwn yn wag.

Pan fydd cyfnod plentyn o dderbyn gofal yn dod i ben oherwydd mabwysiadu (y rheswm y daeth y cyfnod i ben, cod E11, E12), y dyddiad y daeth y cyfnod i ben yw'r dyddiad y mae'r llys yn gwneud y gorchymyn mabwysiadu.

Pan fydd cyfnod y plentyn o dderbyn gofal yn dod i ben oherwydd ei fod wedi marw yn ystod ei gyfnod mewn gofal (y rheswm y daeth y cyfnod i ben, cod E2), rhaid i'r dyddiad y daeth y cyfnod i ben fod yr un fath â'r dyddiad marwolaeth a gofnodir ar y dystysgrif marwolaeth.

### Y rheswm y daeth y cyfnod i ben

Defnyddir un cod, X1, i ddynodi bod cyfnod wedi dod i ben a bod cyfnod newydd wedi dechrau. Mae pob cod arall yn cofnodi'r amgylchiadau pan fo cyfnod plentyn o dderbyn gofal yn dod i ben.

Os na fydd y cyfnod yn dod i ben yn ystod y flwyddyn (ac os yw'r plentyn yn derbyn gofal ar noson 31 Mawrth 2026), rhaid gadael y maes hwn yn wag.

### Cyfnod newydd yn dilyn, yn dal i dderbyn gofal:

Y cyfnod yn dod i ben, a chyfnod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod, am unrhyw reswm X1

### Gofal yn dod i ben, ddim yn derbyn gofal mwyach:

Wedi'i fabwysiadu – cais heb ei wrthwynebu E11

Wedi'i fabwysiadu – cydsyniad wedi'i hepgor E12

Wedi marw E2

Awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi ymgymryd â'r gofal E31

Awdurdod lleol arall y tu allan i Gymru wedi ymgymryd â'r gofal E32

Wedi dychwelyd adref i fyw gyda'i rieni, perthnasau neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant, ategir gan: E4

- Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig wedi'i wneud i ofalwyr maeth blaenorol E43
- Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig wedi'i wneud i ofalwyr ac eithrio gofalwyr maeth blaenorol E44

Wedi symud i drefniant byw’n annibynnol ac nid yw’n derbyn gofal mwyach: llety cefnogol yn darparu trefniadau cyngor neu gymorth ffurfiol (ee y rhan fwyaf o hosteli, YMCAs, cynteddau a phrosiectau gadael gofal) E5

Wedi symud i drefniant byw’n annibynnol ac nid yw’n derbyn gofal mwyach: llety nad yw’n darparu unrhyw drefniadau cyngor neu gymorth ffurfiol (ee cyfleuster gwely a brecwast, fflat un ystafell, ei fflat ei hun, byw gyda ffrindiau) E6

18 oed ac yn dal i fyw gyda rhiant/rhieni maeth blaenorol mewn trefniant Pan Fydda i’n Barod E10

Wedi trosglwyddo i ofal gwasanaethau cymdeithasol i oedolion E7

Y cyfnod o dderbyn gofal wedi dod i ben am unrhyw reswm arall E8

Wedi’i ddedfrydu i’r ddalfa E9

### Cod post lleoliad y plentyn

Nodwch god post lle mae’r plentyn wedi’i leoli, gan ddefnyddio’r fformat canlynol ee CF10 4SD. Nid oes angen cod post y lleoliad ar gyfer lleoliadau mabwysiadu (codau lleoliad A3, A4, A51, A52, A61, A62 ac A8).

### Seibiannau byr

Ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal mewn cyfres o seibiannau byr (statws cyfreithiol V1), cofnodwch nifer y seibiannau byr a dderbyniodd y plentyn. Nodwch fod rhaid cael cyfres o seibiannau wedi’u cynllunio, h.y. o leiaf dau mewn nifer.

## Mabwysiadu plant sy'n derbyn gofal

Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau ar gyfer pob plentyn a oedd yn arfer derbyn gofal yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027, ar ôl rhoi gorchymyn mabwysiadu. Bydd pob un o'r plant hyn wedi cael eu lleoli gyda'u rhieni sy'n mabwysiadu cyn eu mabwysiadu. Yn ystod y cyfnod hwn, dylent gael eu hystyried yn rhai sydd 'wedi'u cartrefu i'w mabwysiadu' a dim ond ar ôl i'r mabwysiadu gael ei ganiatáu y dylid cofnodi bod eu cyfnod gofal wedi dod i ben.

Pan fo plentyn wedi'i fabwysiadu yn ystod y flwyddyn, mae'n bwysig bod yr holl ddata sy'n ymwneud â'r mabwysiadu wedi'u llenwi.

Mae'r dyddiadau y mae eu hangen ar gyfer plant a gaiff eu mabwysiadu yn cyfeirio at y camau amrywiol yn ystod y broses fabwysiadu. Ym mhob achos, dyddiad penderfyniad terfynol eich awdurdod lleol yw'r dyddiad y mae ei angen, nid dyddiad argymhellion y panel mabwysiadu. Dylai'r dyddiadau hyn adlewyrchu trefn resymegol y penderfyniadau hyn.

### Cod awdurdod lleol

Mae codau a chanllawiau ar dudalen 8

### Rhif adnabod plentyn yr awdurdod lleol

Mae canllawiau ar dudalen 8

### Rhywedd

Mae codau a chanllawiau ar dudalen 8

### Dyddiad geni

Mae canllawiau ar dudalen 9

### Dyddiad dechrau derbyn gofal yn y cyfnod gofal diweddaraf

Mae'r eitem hon yn cofnodi'r dyddiad y dechreuodd y cyfnod gofal diweddaraf ac mae'n 10 nod o hyd. Pan fydd y cyfnodau yn dilyn ei gilydd mae'n rhaid i'r cyfnod newydd ddechrau ar yr un diwrnod ag y daeth y cyfnod blaenorol i ben. Cofnodwch y diwrnod, y mis a'r flwyddyn fel a ganlyn: DD MM BBBB.

Enghraifft: Dylid cofnodi 4 Tachwedd 2024 fel 04/11/2024

Defnyddiwch 'seroau arweiniol' os oes angen i sicrhau bod pob digid yn cael ei lenwi.

### Dyddiad penderfyniad yr ALl mai mabwysiadu fyddai er lles pennaf y plentyn

Dyma'r dyddiad pan fydd yr awdurdod lleol (yn ei swyddogaeth fel yr asiantaeth fabwysiadu) yn penderfynu'n ffurfiol mai mabwysiadu fyddai er lles pennaf y plentyn.

Pan fo'r plentyn yn cael ei fabwysiadu *heb* sêl bendith yr awdurdod lleol, neu mewn achosion pan nad yr awdurdod lleol yw'r asiantaeth fabwysiadu, nodwch y dyddiad pryd cafodd y mabwysiadu ei nodi yn y llys.

### Dyddiad paru'r plentyn â'r mabwysiadwyr

Dyma'r dyddiad pan fydd yr awdurdod lleol (yn ei swyddogaeth fel yr asiantaeth fabwysiadu) yn penderfynu bod y plentyn i'w gartrefu gyda'r darpar riant (rieni) at ddibenion mabwysiadu.

Pan fo'r plentyn yn cael ei fabwysiadu *heb* sêl bendith yr awdurdod lleol, neu mewn achosion pan nad yr awdurdod lleol yw'r asiantaeth fabwysiadu, nodwch y dyddiad pryd cafodd y mabwysiadu ei nodi yn y llys.

### Dyddiad lleoli ar gyfer mabwysiadu

Dyma'r dyddiad pryd cafodd y plentyn ei gartrefu i'w fabwysiadu, a dylai gyd-fynd â'r dyddiad a nodwyd ar gyfer mabwysiadu yn yr adran Cyfnodau gofal.

### Dyddiad mabwysiadu

Dyma'r dyddiad pryd cafodd y plentyn ei fabwysiadu a phan ddaeth y cyfnod 'derbyn gofal' i ben. Dylai gyd-fynd â'r 'dyddiad y daeth y cyfnod i ben' yn yr adran Cyfnodau gofal.

### Wedi'i fabwysiadu gan gyn-ofalwyr maeth

Nodwch 1 os cafodd y plentyn ei fabwysiadu gan ofalwr(wyr) maeth blaenorol.
Nodwch 0 os na chafodd y plentyn ei fabwysiadu gan ofalwr(wyr) maeth blaenorol.

Pan na fydd plentyn ond yn cael ei letya gyda darpar rieni sy'n mabwysiadu (o dan adran 81(11) o Ddeddf 2014 a rheoliad 25 o Reoliadau 2015) ni ddylid trin y plentyn fel un a gafodd ei fabwysiadu gan ofalwr(wyr) maeth blaenorol.

### Nifer y mabwysiadwyr

Rhowch nifer y mabwysiadwyr mewn fformat rhifiadol ee 1 neu 2.

### Rhywedd y mabwysiadwyr

Rhowch G, B neu A ar gyfer mabwysiadwr sengl, GG, BB, AA, GB, GA neu BA os ydynt yn gwpl.
Gydag G yn golygu gwryw, B yn golygu Benyw ac A yn golygu arall.

### Statws cyfreithiol y mabwysiadwyr

Rhowch statws cyfreithiol y mabwysiadwyr o'r rhestr ganlynol:

Mabwysiadwr sengl LS0
Cwpl priod neu gwpl mewn partneriaeth sifil (gwahanol ryw) LS11
Cwpl priod neu gwpl mewn partneriaeth sifil (yr un rhyw) LS12
Cwpl di-briod (gwahanol ryw) LS3
Cwpl o'r un rhyw ond nid yn briod nac mewn partneriaeth sifil LS4

### Ethnigrwydd y mabwysiadwyr 1

Rhowch ethnigrwydd y mabwysiadwyr o'r rhestr a ganlyn:

WHTE1 - Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
WHTE2 - Roma
WHTE3 - Unrhyw gefndir Gwyn arall (yn cynnwys Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig)
MIXD1 - Gwyn a Du Caribïaidd

MIXD2 - Gwyn a Du Affricanaidd
MIXD3 - Gwyn ac Asiaidd
MIXD4 - Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall
ASAB1 - Indiaidd
ASAB2 - Pacistanaidd
ASAB3 - Bangladeshaidd
ASAB4 - Tsieineaidd
ASAB5 - Unrhyw gefndir Asiaidd arall
BBAC1 - Caribïaidd
BBAC2 - Affricanaidd
BBAC3 - Unrhyw gefndir Du arall
OOTH1 - Arabaidd
OOTH2 - Unrhyw grŵp ethnig arall
UNKN1 – Ddim yn gwybod

Pan fo cwpl yn mabwysiadu llenwch Ethnigrwydd mabwysiadwyr 2 hefyd.

### Ethnigrwydd y mabwysiadwyr 2

Rhowch ethnigrwydd y mabwysiadwyr o'r rhestr a ganlyn:

WHTE1 - Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
WHTE2 - Roma
WHTE3 - Unrhyw gefndir Gwyn arall (yn cynnwys Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig)
MIXD1 - Gwyn a Du Caribïaidd
MIXD2 - Gwyn a Du Affricanaidd
MIXD3 - Gwyn ac Asiaidd
MIXD4 - Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall
ASAB1 - Indiaidd
ASAB2 - Pacistanaidd
ASAB3 - Bangladeshaidd
ASAB4 - Tsieineaidd
ASAB5 - Unrhyw gefndir Asiaidd arall
BBAC1 - Caribïaidd
BBAC2 - Affricanaidd
BBAC3 - Unrhyw gefndir Du arall
OOTH1 - Arabaidd
OOTH2 - Unrhyw grŵp ethnig arall
UNKN1 – Ddim yn gwybod

Dim ond cyplau sy'n mabwysiadu ddylai lenwi hwn. Os mai dim ond un mabwysiadwr sydd, llenwch Ethnigrwydd mabwysiadwyr 1 yn unig.

## Plant y daeth eu cyfnod o dderbyn gofal i ben

Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau ar gyfer pob plentyn 16 oed neu'n hŷn y daeth ei gyfnod o dderbyn gofal i ben yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027 ni waeth am ba hyd yr oedd yn derbyn gofal. Mae "pobl ifanc sy'n gadael gofal" yn cyfeirio dim ond at y rhai a oedd yn 16 oed neu'n hŷn ar adeg y daeth eu cyfnod o dderbyn gofal i ben (gan gynnwys y rhai a oedd yn derbyn gofal yn arbennig o dan gyfres o seibiannau byr). Os daeth cyfnodau plentyn o dderbyn gofal i ben mwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn, dim ond yr achos diwethaf ddylid ei gynnwys.

Efallai na fydd rhai eitemau yn yr adran hon yn gymwys i bob plentyn y daeth ei gyfnod o dderbyn gofal i ben ac sy'n 16 oed neu hŷn. Dylid eu cynnwys yn yr adran hon beth bynnag – defnyddiwch y cod anghymwys neu amherthnasol os yw'n briodol.

### Cod awdurdod lleol

Mae codau a chanllawiau ar dudalen 8

### Rhif adnabod plentyn yr awdurdod lleol

Mae canllawiau ar dudalen 8

### Rhywedd

Mae codau a chanllawiau ar dudalen 8

### Dyddiad geni

Mae canllawiau ar dudalen 9

### Dyddiad dechrau derbyn gofal yn y cyfnod gofal diweddaraf

Mae'r eitem hon yn cofnodi'r dyddiad y dechreuodd y cyfnod gofal diweddaraf ac mae'n 10 nod o hyd. Pan fydd y cyfnodau yn dilyn ei gilydd mae'n rhaid i'r cyfnod newydd ddechrau ar yr un diwrnod ag y daeth y cyfnod blaenorol i ben. Cofnodwch y diwrnod, y mis a'r flwyddyn fel a ganlyn: DD MM BBBB.

Enghraifft: Dylid cofnodi 4 Tachwedd 2024 fel 04/11/2024

Defnyddiwch 'seroau arweiniol' os oes angen i sicrhau bod pob digid yn cael ei lenwi.

### Dyddiad gadael gofal

Mae'r eitem hon yn cofnodi'r dyddiad y daeth y gofal i ben a phan mae'r plentyn yn gadael gofal. Bydd y dyddiad hwn bob amser yn perthyn i'r flwyddyn ddata gyfredol. Dylech gofnodi'r dyddiad, mis a blwyddyn fel DD MM BBBB.

### Y rheswm y daeth y gofal i ben

Cofnodwch y cod mwyaf priodol o'r eitem data Rheswm y daeth y Cyfnod i ben yn yr adran Cyfnodau gofal. Defnyddiwch briflythyren ar gyfer rhan gyntaf y cod.

Mae'r codau fel a ganlyn:

Wedi'i fabwysiadu – cais heb ei wrthwynebu E11
Wedi'i fabwysiadu – cydsyniad wedi'i hepgor E12
Wedi marw E2

Awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi ymgymryd â'r gofal E31
Awdurdod lleol arall y tu allan i Gymru wedi ymgymryd â'r gofal E32
Wedi dychwelyd adref i fyw gyda'i rieni, perthnasau, neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant, ategir gan: E4
Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig wedi'i wneud i ofalwyr maeth blaenorol E43
Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig wedi'i wneud i ofalwyr ac eithrio gofalwyr maeth blaenorol E44
Wedi symud i drefniant byw'n annibynnol ac nid yw'n derbyn gofal mwyach: llety cefnogol yn darparu trefniadau cyngor neu gymorth ffurfiol (ee y rhan fwyaf o hosteli, YMCAs, cynteddau a phrosiectau gadael gofal) E5
Wedi symud i drefniant byw'n annibynnol ac nid yw'n derbyn gofal mwyach: llety nad yw'n darparu unrhyw drefniadau cyngor neu gymorth ffurfiol (ee cyfleuster gwely a brecwast, fflat un ystafell, ei fflat ei hun, byw gyda ffrindiau) E6
18 oed ac yn dal i fyw gyda rhiant neu rieni maeth mewn trefniant Pan Fydda i'n Barod E10
Wedi trosglwyddo i ofal gwasanaethau cymdeithasol i oedolion E7
Y cyfnod o dderbyn gofal wedi dod i ben am unrhyw reswm arall E8
Wedi'i ddedfrydu i'r ddalfa E9
Y cyfnod yn dod i ben, a chyfnod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf. Bydd y cyfnod hwn yn cael ei ddefnyddio'n unig ar gyfer rhywun sy'n gadael gofal mewn amgylchiadau prin pan fo cyfnod o ofal parhaus yn dod i ben ac yn cael ei ddilyn yn syth gan gyfres o leoliadau tymor byr y cytunwyd arnynt (rheoliad 62 o Reoliadau 2015) X1

### Cynghorydd Personol

Cofnodwch a oes Cynghorydd Personol wedi'i benodi ar gyfer rhywun sy'n gadael gofal categori 2, 3 neu 4.
Cynghorydd personol wedi'i benodi i'r sawl sy'n gadael gofal 1
Cynghorydd personol heb ei benodi i'r sawl sy'n gadael gofal 0
Y sawl sy'n gadael gofal ddim yn gymwys i gael cynghorydd personol 9

Mae'r eitem ddata hon yn gymwys i bobl ifanc sy'n gadael gofal categori 2, 3 neu 4 yn unig nid i bobl ifanc categori 1 neu bobl ifanc sy'n gadael gofal categori 5 neu 6. Mae categorïau o bobl ifanc wedi'u diffinio yn adran 104 o Ddeddf 2014 ac wedi'u disgrifio ymhellach yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 o Ddeddf 2014.

Mae'r rhai sy'n gadael gofal categori 2, 3 neu 4 wedi'u diffinio fel a ganlyn:

- person ifanc categori 2 - rhywun sy'n 16 neu'n 17 oed, nad yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac a oedd yn berson ifanc categori 1 yn union cyn peidio â derbyn gofal;
- person ifanc categori 3 - rhywun a oedd yn berson ifanc categori 1 neu gategori 2 ond sydd nawr yn 18 oed neu'n hŷn hyd at 21 oed;
- person ifanc categori 4 - rhywun yr oedd dyletswyddau'r awdurdod lleol wedi dod i ben ar ei gyfer o dan gategori 3 ond sy'n dymuno ailgysylltu at ddibenion rhaglen addysg neu

hyfforddiant hyd at 24 oed neu y tu hwnt i hynny, os yw'r rhaglen y mae'n rhan ohoni yn estyn y tu hwnt i'w ben-blwydd yn 25 oed.

### Cynllun Llwybr

Cofnodwch a oedd gan rywun sy'n gadael gofal categori 2, 3 neu 4 Gynllun Llwybr.

Roedd gan y sawl sy'n gadael gofal gynllun llwybr 1
Nid oedd gan y sawl sy'n gadael gofal gynllun llwybr 0
Nid oedd y sawl sy'n gadael gafael yn gymwys am gynllun llwybr 9

Mae'r eitem ddata hon yn berthnasol i bobl sy'n gadael gofal categori 2, 3 neu 4 yn unig nid i bobl ifanc categori 1 neu bobl sy'n gadael gofal categori 5 neu 6. Mae categorïau o bobl ifanc wedi'u diffinio yn adran 104 o Ddeddf 2014 ac wedi'u disgrifio ymhellach yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â Rhan 6 o Ddeddf 2014.

Mae'r rhai sy'n gadael gofal categori 2, 3 neu 4 wedi'u diffinio fel a ganlyn:

- person ifanc categori 2 - rhywun sy'n 16 neu'n 17 oed, nad yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac a oedd yn berson ifanc categori 1 yn union cyn peidio â derbyn gofal;
- person ifanc categori 3 - rhywun a oedd yn berson ifanc categori 1 neu gategori 2 ond sydd nawr yn 18 oed neu'n hŷn hyd at 21 oed;
- person ifanc categori 4 - rhywun yr oedd dyletswyddau'r awdurdod lleol wedi dod i ben ar ei gyfer o dan gategori 3 ond sy'n dymuno ailgysylltu at ddibenion rhaglen addysg neu hyfforddiant hyd at 24 oed neu y tu hwnt os yw'r rhaglen y mae'n rhan ohoni yn estyn y tu hwnt i'w ben-blwydd yn 25 oed.

Dylai person ifanc categori 1 gael cynllun llwybr ond nid yw wedi gadael gofal eto felly ni ddylid ei gyfrif yma. Person ifanc categori 1 yw rhywun sy'n 16 neu'n 17 oed, sydd wedi bod mewn gofal am gyfanswm o 13 o wythnosau ers ei ben-blwydd yn 14 oed ac sy'n parhau i dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

### Llety

Cofnodwch lety'r sawl sy'n gadael gofal ar ddyddiad gorffen derbyn gofal.

Llythyren yw'r digid cyntaf ac mae'n cynrychioli'r math o lety y mae'r person ifanc yn byw ynddo.

Gyda rhieni neu berthynas B

Gofal preswyl neu nyrsio fel sefydliad y GIG C

Llety lled-annibynnol, dros dro (ee hostel â chymorth, fflatiau hyfforddi); llety hunangynhaliol gyda chymorth personol arbenigol (ee i bobl ifanc anabl, menywod beichiog a rhieni sengl); a llety hunangynhaliol gyda chymorth fel y bo'r angen D

*Tai â chymorth yw pan fo'r person ifanc yn byw yn ei fflat ei hun neu ystafell mewn tŷ a rennir, yn aml ar y cyd â phobl ifanc eraill. Mae ganddynt rywun ar alwad neu'n byw ar y safle i roi cymorth iddynt.*

Llety â chymorth (lle y mae staff goruchwylio neu weithwyr cynghori ar gael i ddarparu cyngor neu gymorth ffurfiol) E

*Mae llety â chymorth yn debyg i drefniadau teuluoedd maeth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, lle y mae gan berson ifanc ystafell wely a chyfleusterau a rennir gyda theulu. Fodd bynnag, ni chânt eu rheoleiddio yn yr un modd â threfniadau gofal maeth. Mae gan y person ifanc annibyniaeth sylweddol ac ni chaiff ei riantu yn yr un modd â rhywun o dan drefniant gofal maeth.*

Llety cyffredin heb gymorth ffurfiol. Yn gyffredinol, bydd hyn yn cynnwys pobl ifanc yn aros gyda chyn-ofalwyr maeth K

Cynteddau a llety tebyg â chymorth sy'n cyfuno'r llety gyda chyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth T

Byw'n annibynnol ee tenantiaeth annibynnol mewn fflat, tŷ neu fflat un stafell wely, yn cynnwys tenantiaeth awdurdod lleol neu gymdeithas tai, llety a ddarperir gan goleg neu brifysgol. Yn cynnwys rhannu fflat U

Llety brys (ee lloches nos, mynediad uniongyrchol, hostel brys). V

Gwely a brecwast W

Yn y ddalfa X

Llety arall Y

Mae'r ail ddigid yn rhifyddol ac yn dangos a ydych chi'n credu bod y llety yn 'addas' neu'n 'anaddas'. Defnyddiwch '1' am 'addas' a '2' am anaddas.

Mae'n rhaid i'r codau llety fod ar ffurf dau ddigid llythyren yna rhif, er enghraifft B1 sy'n golygu llety gyda rhieni neu berthnasau (B) a'i fod yn addas (1).

Ystyrir bod llety'n addas os yw'n darparu darpariaeth ddiogel a fforddiadwy i bobl ifanc. Yn gyffredinol mae'n cynnwys llety tymor byr sydd wedi'i gynllunio i symud pobl ifanc i lety hirdymor sefydlog, ond ni fyddai'n cynnwys llety brys a ddefnyddid mewn argyfwng.

Dylid codio llety sy'n gosod y person mewn risg o niwed neu o gael ei allgau'n gymdeithasol oherwydd ei leoliad neu ffactorau eraill fel 'anaddas'.

Dylid ystyried llety categori V a chategori X yn 'anaddas' fel rheol. Bydd angen rhoi esboniad os yw un o'r mathau hyn o lety'n cael ei ystyried yn 'addas'. Dylai llety categori W gael ei ystyried yn 'anaddas' bob amser.

Bydd pobl ifanc sy'n dweud eu bod yn 'aros gyda ffrindiau' fel arfer mewn un o ddwy sefyllfa:

- yn ddigartref, ac yn aros gyda ffrindiau dros dro fel mesur argyfwng. Dylid codio hyn fel Y2. Dylid ei ystyried yn 'anaddas' bob amser.
- yn rhan o drefniant rhannu fflat gyda ffrindiau. Fel arfer, bydd yna gytundeb tenantiaeth sy'n enwi'r person ifanc, y rhent y cytunwyd arno a'r cyfnod rhybudd y cytunwyd arno. Dylid dosbarthu hwn o dan god U fel arfer, sef 'tenantiaeth annibynnol'. Dylech benderfynu ar wahân, yn ôl amgylchiadau'r unigolyn, a yw hyn yn 'addas' neu'n 'anaddas'.

# Atodiad

## Cofnod Newidiadau 2024-25 Fersiwn 0.1

- Dyddiadau wedi'u newid o 2023-24 i 2024-25
- Troednodiadau wedi'u cynnwys yn y prif destun i wella hygyrchedd i ddefnyddwyr rhaglenni darllen sgrin
- Diweddaru meysydd Rhywedd o "Anneuaidd" i "Arall"
- Newid teitl yr adran Cyfnodau gofal i "Plant sy'n derbyn gofal – Cyfnodau gofal".
- Testun ychwanegol wedi'i gynnwys yn yr adran 'Diffinio plant 'sy'n derbyn gofal' at ddibenion yr ystadegau hyn'.
- Diweddaru R5: O ran Sefydliad Troseddwyr Ifanc neu Garchar, "bechgyn" wedi'i ddisodli â "plant".
- Diwygio'r diffiniad o berson ifanc "categori 3" er mwyn dileu'r testun "neu'n hŷn hyd at 21 oed" i gyd-fynd â deddfwriaeth a rheoliadau.
- Diweddaru Seibiannau byr i gynnwys y testun "Nodwch fod rhaid cael cyfres o seibiannau wedi'u cynllunio, h.y. o leiaf dau mewn nifer".
- Diweddu'r atalnodi a gramadeg yn gyffredinol er mwyn gwella eglurder.

## Cofnod Newidiadau 2025-26 Fersiwn 0.1

- Dyddiadau wedi'u newid o 2024-25 i 2025-26
- Cadarnhau na ddylai cyfnodau o dderbyn gofal am lai na 24 awr gael eu cofnodi yn y ffurflen plant sy'n derbyn gofal, hyd yn oed pan fo'r plentyn eisoes yn derbyn gofal.
- Cadarnhau pa bryd y caiff eitemau data untro eu cwblhau.
- Symleiddio'r adran Pan Fydda i'n Barod i gynnwys yr holl leoliadau Pan Fydda i'n Barod, ni waeth beth fo'r llwybr i'r lleoliad.
- Cynnwys testun ychwanegol yn adran cod post cartref y plentyn ar gyfer achosion pan fo gan y plentyn god post, ond na ellir ei roi ee am resymau diogelu.
- Canllawiau cyd-destunol wedi'u hychwanegu ynghylch tarfu ar leoliad mabwysiadu.
- "Tarfu ar y trefniant mabwysiadu N9" wedi'i newid i "Methiant y trefniant mabwysiadu N9". Mae'r adran bellach yn cyfeirio at "methiant y trefniant mabwysiadu mewn teulu" lle y defnyddiwyd "tarfu" yn flaenorol.
- Teitl yr adran wedi'i newid o "Pobl ifanc sy'n gadael gofal" i "Plant y daeth eu cyfnod o dderbyn gofal i ben". Mae'r adran bellach yn egluro'r gwahaniaethau rhwng pobl ifanc sy'n gadael gofal a phlant y daeth eu cyfnod o dderbyn gofal i ben. Mae hefyd yn rhoi canllawiau ar sut i gynnwys cofnodion ar gyfer pob un o'r mathau hyn o blant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol.

## Cofnod Newidiadau 2026-27 Fersiwn 0.1

- Dyddiadau wedi'u newid i'r flwyddyn adrodd 2026-27
- Fformat wedi'i newid o ffurf html i PDF
- Testun eglurhaol wedi'i ychwanegu at rannau D ac E o'r adran Llety Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal.